- 37.** Mae effaith weithredol yr Ystadau Strategol yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu am warged a gwaredu asedau, lle mae angen cyfieithu dogfennau penodol a'r defnydd o unrhyw fath o gyfathrebu allanol a bydd hyn hefyd yn berthnasol i gynghorwyr penodedig sy'n gweithredu ar ran y Cyngor.
- 38.** Bydd y gwaith o gyfieithu dogfennau a chyhoeddiadau mewnol yn parhau yn unol â'r rheoliadau presennol ac mae'r staff wedi derbyn cyfarwyddyd ac arweiniad pellach yn ystod y flwyddyn o ran ble mae angen gwneud hyn a sut mae angen dilyn y prosesau cywir.

CYNNIG Y CABINET

Argymhellir bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021-22 (wedi'i atodi fel **Atodiad A**) i'w gyhoeddi'n ffurfiol yn unol â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011).

Y CABINET

14 Gorffennaf 2022

Mae'r atodiadau canlynol ynghlwm:

Atodiad A Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021-22

Atodiad 1 Adolygiad Nico o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-2022

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



Caerdydd
Ddwyieithog



Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021-22

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gydymffurfio â rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut y dylai sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Safonau Rheoliadau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

Mae copi o'r safonau, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, ar gael o www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyeithog

1. Cyflwyniad

Prif nod y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gweithiwr unigol i wneud cais am wybodaeth neu wasanaethau yn y Gymraeg. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol bob blwyddyn sy'n nodi'r wybodaeth ganlynol:

Cwynion

Nifer y cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno sy'n ymwneud â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw.

Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg

- Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn.
- Os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennyh yn ystod y flwyddyn honno, canran y staff a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

Swyddi a Hysbysebwyd

Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn ac a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle —

- mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol,
- bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg yn dilyn penodiad i'r swydd,
- mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu

- nid oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

Mae pob awdurdod lleol wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg sy'n rhestru'r safonau a'r dyddiad cydymffurfio ar gyfer pob un o'r safonau.

Cytunir a chymeradwyir Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021-22 gan y Cyngor llawn cyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â gofynion statudol y safonau.

Y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad yw **30 Mehefin 2022**. Fodd bynnag, cytunwyd i gyflwyno fersiwn drafft o'r adroddiad ar wefan Cyngor Caerdydd i fodloni'r dyddiad hwn gan fod cyflwyniad yr adroddiad i'r Cabinet a'r Cyngor wedi'i ohirio tan fis Gorffennaf 2022 i hwyluso trafodaethau ynghylch blaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd yng nghyfarfodydd cyntaf y Cabinet a'r Cyngor ym mis Mehefin yn dilyn yr etholiadau lleol.

Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk/caerdydd-ddwyieithog

Llwyddiannau

Hysbysebodd y Cyngor **67** o swyddi Cymraeg hanfodol, a **648** o swyddi ychwanegol lle'r oedd y Gymraeg yn ofyniad dymunol. Mae nifer y swyddi Cymraeg hanfodol a dymunol a hysbysebwyd yn cynrychioli cynnydd o **158%** a **108%** yn ôl eu trefn o'i gymharu â 2020/21.

- Cyfieithodd Caerdydd Ddwyieithog **14,550,626 o eiriau** yn ystod 2021-22 (cafodd **99.9%** o'r holl geisiadau eu dychwelyd i'r cleient erbyn y dyddiad cau y cytunwyd arno). Mae hyn yn gynnydd o 25% o gymharu â 2020-21.
- Cymeradwywyd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ddiwygiedig Cyngor Caerdydd ar gyfer 2022-27 gan Gyngor Caerdydd ar 3 Mawrth 2022. Gweler **Adranau 5** a **6** am fanylion pellach.
- Yn unol â Safon y Gymraeg 146 cynhaliwyd adolygiad annibynnol o Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22 gan Nico a chafodd eu hadroddiad terfynol gymeradwyaeth Cyngor Caerdydd ar 3 Mawrth 2022. Ceir wybodaeth bellach yn **Adran 5**.
- Cwblhawyd e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith Cyngor Caerdydd gan **990** o staff yn 2021/22.

- Mae nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi cynyddu **8.6%** ychwanegol ers 2020-21 ac yn cynrychioli **17.25%** o'r gweithlu sydd wedi'i gofrestru ar system AD DigiGOV y Cyngor.
- Dyrannwyd **657** o leoedd Derbyn i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer mis Medi 2021, sef **17.3%** o gyfanswm y derbyniadau ar draws y ddinas. Mae hyn yn ostyngiad bach o'i gymharu â 2020/21.
- Ymgysylltodd dros 25,000 o bobl â Gŵyl Tafwyl, a gynhaliwyd yn ddigidol o ganlyniad i'r cyfyngiadau a oedd ar waith oherwydd argyfwng Covid-19. Cefnogir gŵyl Tafwyl gan y Cyngor, ac yn 2021-22 cafodd ei ffrydio'n fyw o Gastell Caerdydd.
- Cafodd digwyddiadau diwylliannol Cymreig fel Dydd Miwsig Cymru, Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae a Diwrnod Hawliau eu hyrwyddo'n llwyddiannus ar draws y Cyngor.
- Cynhaliodd C4, grŵp siaradwyr a dysgwyr Cymraeg Cyngor Caerdydd, ddigwyddiad Dydd Gŵyl Dewi rhithwir gyda siaradwr gwadd ar 1 Mawrth 2022 a fynychwyd gan dros **30** aelod o staff.

Argyfwng Covid-19

Roedd 2021/22 yn flwyddyn heriol arall i Gyngor Caerdydd. Mae'r cyfyngiadau a osodwyd oherwydd argyfwng Covid-19, a'r ffyrdd newydd o weithio a ddatblygwyd o ganlyniad, wedi newid sut mae'r Cyngor yn gweithio a'r ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio ei wasanaethau. Mae mesurau i hwyluso gweithio gartref a darparu gwasanaethau drwy lwyfannau digidol yn parhau ac mae nifer fawr o staff y Cyngor yn parhau i weithio gartref. Mae hyn yn brawf ar bob agwedd ar ddarparu gwasanaethau ond mae darparu gwasanaeth Cymraeg yn dod â rhai heriau penodol.

Cyfathrebiadau Covid – mae natur argyfwng Covid-19 wedi golygu bod angen anfon nifer o gyfathrebiadau brys gan y Cyngor i ddinasyddion Caerdydd. Mae tîm Caerdydd Ddwyeithog wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r Tîm Cyfathrebu ac yn parhau i wneud hynny i sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau i'r cyhoedd ac â staff yn ddwyieithog yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Fel y dangosir yn **Adran 7** yr adroddiad, mae canran y ceisiadau cyfieithu a gwblhawyd wedi codi **25%** yn 2021/22 ac mae **99.9%** wedi'u dychwelyd o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn dangos gwaith caled ac ymroddiad tîm Caerdydd Ddwyeithog o ran sicrhau bod y symiau mawr o waith cyfieithu a dderbynnir yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol.

Gwasanaeth cyfieithu – cynyddodd cyfanswm nifer y geiriau a gyfieithwyd gan Caerdydd Ddwyeithog yn sylweddol yn 2021/22. Mae llawer iawn o waith cyfieithu wedi'i dderbyn gan gydweithwyr yn y Cyngor a phartneriaid allanol wrth i'r tarfu sy'n deillio o argyfwng Covid leddfu ac wrth i fusnes arferol aildechrau. Yn ogystal, mae gwaith cyfieithu brys sy'n gysylltiedig â Covid, gyda therfynau amser eithriadol o dynn, wedi parhau i gael eu

derbyn a'u cwblhau gan dîm Caerdydd Ddwieithog i sicrhau bod dinasyddion Caerdydd yn derbyn gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd ac yn unol â'u dewis iaith.

Gwasanaethau ffôn – Mae Cyngor Caerdydd wedi sicrhau bod ei wasanaethau ffôn a chanolfan alwadau yn parhau i ddarparu gwasanaeth di-dor i ddinasyddion Caerdydd. Oherwydd bod llawer o wasanaethau wyneb-yn-wyneb wedi'u hatal o hyd, y gwasanaeth ffôn yw'r unig ffordd i lawer drafod materion a chael cyngor. Mae gwasanaethau fel C2C wedi parhau i fod yn weithredol ac wedi parhau i ddarparu gwasanaeth dwieithog. Mae tîm Caerdydd Ddwieithog yn cynorthwyo swyddogion unigol y Cyngor drwy recordio negeseuon dwieithog ar gyfer eu ffonau symudol er mwyn sicrhau bod pob dinesydd yn gallu delio â'i ymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfarfodydd rhithwir – Mae Cyngor Caerdydd yn defnyddio llwyfan Microsoft Teams ar gyfer cynnal cyfarfodydd rhithwir. Fodd bynnag, nid yw'r llwyfan Teams yn cefnogi sianel cyfieithu ar y pryd bwrpasol o hyd. Mae nifer fach o drwyddedau Zoom wedi'u caffael i hwyluso a chefnogi cyfarfodydd a chyfweiliadau digidol dwieithog ar ran y Cyngor ac mae Caerdydd Ddwieithog wedi cefnogi cydweithwyr drwy gynnal cyfarfodydd Zoom dwieithog. Mae cyfarfodydd gweddarlledu fel cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor hefyd yn cael eu darparu ar fersiynau Cymraeg a Saesneg gwefan y Cyngor ac yn cael eu hategu gan drydariadau dwieithog ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Mae Cyngor Caerdydd wedi gweithio mewn partneriaeth â Microsoft ac yn rhan o'r rhaglen profi Beta ar gyfer sianel gyfieithu bwrpasol ar y llwyfan Teams. Cynhaliwyd y cylch profi diweddaraf ym mis Mawrth 2022, a'r gobaith yw y bydd y swyddogaeth hon yn cael ei chyflwyno'n ehangach ar ddechrau 2022/23.

Tudalen 83

Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd

Ansiodd Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ddiwygiedig Cyngor Caerdydd ar 1 Mawrth 2021 a 2021/22 yw blwyddyn gyntaf ei gweithrediad.

O ganlyniad i'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg, mae holl staff y Cyngor bellach yn cael cyfle i ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg. Cynhyrwyd yr e-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 gan Academi Cyngor Caerdydd i ddarparu cwrs blasu ac mae hwn wedi'i gwblhau gan **836** o aelodau staff yn 2021/22.

Yn ogystal, mae **232** o aelodau staff wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg lefel uwch, sy'n cynrychioli cynnydd o **21%** o'i gymharu â 2020/21 (**167**). Gan gynnwys yr e-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1, mae nifer staff Cyngor Caerdydd sydd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant iaith Gymraeg yn 2021/22 wedi cynyddu **522%**.

Mae'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg hefyd wedi cyflwyno system o asesiadau gweithle a arweinir gan reolwyr i fesur angen a chapasiti mewn perthynas â darparu gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r dogfennau canllaw canlynol wedi'u llunio i helpu i gynnal yr asesiadau hyn ac i ddatblygu a recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg:

- Asesu Sgiliau Iaith Gymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol.
- Gweithdrefnau Recriwtio, Cyfweld a Dethol a'r Iaith Gymraeg.
- Dewislen gynhwysfawr o opsiynau hyfforddiant iaith Gymraeg.

Rhaid i'r holl rolau yng Nghyngor Caerdydd sy'n delio â chwsmeriaid gynnwys sgiliau Cymraeg a/neu iaith gymunedol fel gofyniad dymunol bellach.

O ganlyniad i'r mesurau a gyflwynwyd gan y strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg, cofnododd **17.25%** o staff y Cyngor (nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion) sydd wedi cofrestru ar y system AD DigiGOV fod ganddynt ryw lefel o sgiliau Cymraeg ac mae nifer y swyddi a hysbysebwr fel rhai Cymraeg hanfodol a dymunol wedi cynyddu **158%** a **108%** yn y drefn honno. Gan nad yw pob aelod o staff wedi'i gofrestru ar y system DigiGOV, mae nifer yr aelodau staff sy'n dweud bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg yn cynrychioli **14.5%** o holl weithlu'r Cyngor (nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion) yn 2021/22.

Caiff y canllawiau a'r gweithdrefnau sy'n cefnogi'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg eu mireinio a'u datblygu ymhellach yn 2022/23 i adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed eisoes eleni.

5. Adolygiad o Strategaeth Ddwyeithog Caerdydd 2017-22 ac Argymhellion ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27

Comisiynwyd Nico gan Gyngor Caerdydd i gynnal adolygiad o weithrediad Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2017-22. Mae cynnal adolygiad yn ofyniad o dan Safon y Gymraeg 146 ac yn cynrychioli arfer gorau gan fod yr asesiad annibynnol hwn yn fodd i fesur llwyddiant Cyngor Caerdydd wrth weithredu'r Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog gyntaf. Cymeradwywyd adroddiad Nico gan y Cabinet ar 24 Chwefror 2022 a'r Cyngor Llawn ar 3 Mawrth 2022. Cadarnhaodd adroddiad Nico fod Cyngor Caerdydd wedi bodloni gofynion Safonau 145 a 146.

Cyflwynir casgliadau'r adroddiad isod:

Safonau 145 a 146

Er mwyn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r safonau dan sylw, mae'n amlwg bod y Cyngor wedi bodloni gofynion safon 145 yn llawn drwy osod targed o ran canran a nifer y siaradwyr yn yr ardal, ynghyd ag amlinellu yn y strategaeth sut y byddai'n anelu at gyflawni'r targed hwnnw ar ffurf cynllun gweithredu a thargedau.

Mae'r adolygiad hwn yn bodloni'r gofyniad yn safon 146 o ran asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed a osodwyd, ac yn ei dro, mae'r asesiad yn cynnig adborth defnyddiol ar gyfer llunio strategaeth 5 mlynedd ddiwygiedig ac uchelgeisiol i'w chyhoeddi maes o law.

Effaith gyffredinol y strategaeth

Fel y nodwyd uchod, nid yw data'r Cyfrifiad ar gael eto i fesur union raddfa llwyddiant ymyriad strategol y Cyngor o ran niferoedd ac oedrannau siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, ond mae arwyddion o ffynonellau dibynadwy eraill yn awgrymu cynnydd sefydlog a graddol.

Byddai'n anodd priodoli unrhyw gynnydd mewn niferoedd yn uniongyrchol i weithgareddau cymunedol y strategaeth ond, fel y mae dogfen gyngor y Comisiynydd ar asesu cyflawniad strategaethau 5 mlynedd yn ei nodi, mae hefyd yn anodd priodoli cynnydd mewn defnydd pob dydd i weithgareddau penodol. Anogir y Cyngor felly i ystyried dogfen gyngor y Comisiynydd yng nghyd-destun ail darged Cymraeg 2050 i ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, drwy osod mesuriadau ansoddol a meintiol i olrhain effaith a llwyddiant gweithgareddau penodol. Mae'r adborth gan bartneriaid yn cynnig man cychwyn ardderchog ar gyfer hyn.

Statws yr iaith

*Er bod y strategaeth 5 mlynedd wedi'i seilio ar y safonau hyrwyddo, mae strategaeth Caerdydd Ddwyeithog wedi rhoi cyfle i'r Cyngor geisio ehangu ar ofynion statudol y safonau eraill y mae'n ddarostyngedig iddynt o dan y Mesur, megis y safonau llunio polisi a gweithredol, er enghraifft gyda sgiliau Cymraeg ei staff, polisi enwi strydoedd Caerdydd a chanllawiau polisi i ddatblygwyr. Mae'r rhain i gyd yn ymwneud â hyrwyddo **statws yr iaith** a dylid nodi hyn fel arfer da i'w efelychu. Mae'n bwysig bod Caerdydd Ddwyeithog yn parhau i chwilio am gyfleoedd i godi proffil a statws yr iaith yn y ddinas yn ogystal â'i waith wrth gynyddu nifer y siaradwyr a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.*

T
D
D
A
I
N
8
5
Adolygiad o Strategaeth Hybu Caerdydd Ddwyeithog 2017-2022 (Nico) t. 31-32).

Nododd Nico hefyd nifer o gryfderau Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2017-22 a'r llwyfan roedd hyn yn ei ddarparu ar gyfer gweithredu strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27:

- Sefydlu Fforwm Dwyieithog Caerdydd i hwyluso gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yng Nghaerdydd a sefydliadau cenedlaethol.
- Hyrwyddo dull ymgynghorol o ymgysylltu â phartneriaid y Fforwm.
- Gwaith y Cyngor i gryfhau a hyrwyddo statws y Gymraeg.
- Datblygu is-grwpiau'r Fforwm i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27 a'i gweithredu dros y 5 mlynedd nesaf.

Cyflwynodd Nico hefyd nifer o argymhellion ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27 fel rhan o'r adolygiad. Mae'r holl argymhellion wedi'u derbyn a'u gweithredu gan Gyngor Caerdydd a cheir y manylion amdanynt isod:

- **Argymhelliad 1: Data Cyfrifiad 2021**

Dylid adolygu'r Strategaeth newydd yn dilyn cyhoeddi data'r Cyfrifiad ar y Gymraeg yn 2022/23 gan graffu'n feirniadol ar dargedau, gan eu haddasu yn ôl yr angen. Bydd angen bod yn barod i weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ymateb i her mewn unrhyw faes demograffig penodol a chynnig rhai targedau newydd.

Mae adolygu a diwygio targedau ar ôl cyhoeddi data Cyfrifiad 2021 wedi'u cynnwys fel camau gweithredu penodol ar gyfer Themâu 1, 2 a 3 yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-27.

- **Argymhelliad 2: Plant a phobl ifanc**

Gydag adolygiadau o wasanaethau ieuenctid y Cyngor yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, ynghyd â'r datblygiadau gyda Chaerdydd sy'n Dda i Blant, mae cyfle i roi cynlluniau ar waith nawr i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg dros y 5-10 mlynedd nesaf. Dylai'r ymarfer mapio i nodi bylchau yn y ddarpariaeth y cyfeirir ati yn y CSCA drafft, (Amcan 1, Canlyniad 5), arwain yn uniongyrchol at fuddsoddiad cymesur mewn gwasanaethau ac adnoddau Gymraeg sy'n cyd-fynd â gweledigaeth y Cynllun Strategol Gymraeg mewn Addysg a'r Strategaeth Hybu newydd.

Mae'r ymarfer i fapio'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd yn cael ei arwain ar hyn o bryd gan Fenter Caerdydd ac fe'i cefnogir gan bartneriaid Fforwm Dwyieithog Caerdydd.

- **Argymhelliad 3: Fforwm Caerdydd Ddwieithog**

Cryfder y Fforwm yw ei gyfathrebu a'i gysylltiadau â phartneriaid/rhanddeiliaid. Mae angen ystyried y ffordd orau o gynnwys:

- (i) *swyddogion o'r Cyngor (Addysg, Caerdydd sy'n Dda i Blant a Gwasanaethau Ieuenctid yn benodol) i rannu gwybodaeth ac arfer da a sicrhau cyd-ddealltwriaeth o nodau;*
- (ii) *sylyfaen ehangach o bartneriaid e.e. busnes ac economi.*

Mae swyddogion y Cyngor o Addysg, Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, Addewid Caerdydd a Dinas sy'n Dda i Blant wedi ymuno â Fforwm Caerdydd Ddwieithog i hwyluso trafodaethau â phartneriaid a rhannu dealltwriaeth o flaenoriaethau a nodau. Mae camau ar y gweill ar hyn o bryd i ehangu aelodaeth y Fforwm i gynnwys sylfaen ehangach o bartneriaid allanol.

- **Argymhelliad 4: Mesur effaith**

Er mwyn gallu mesur cynnydd y strategaeth yn effeithiol erbyn 2027, dylid ystyried cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar asesu'r strategaeth ynghyd â'r enghreifftiau ymarferol o gasglu tystiolaeth a roddir gan bartneriaid. Dylid gwneud penderfyniad ynglŷn â'r dystiolaeth a allai ddangos effaith ymyriadau, o ran newid mewn ymddygiad/agwedd/defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â'r hyn y mae llwyddiant yn ei olygu mewn termau meintiol.

Mae hyn wedi'i gynnwys fel cam gweithredu o dan Thema 3 yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27 a chynhelir trafodaethau â Chomisiynydd y Gymraeg a phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyeithog i asesu sut y gellir mesur yr effaith yn effeithiol.

- **Argymhelliad 5: CSCA 2022-31 (Canlyniadau 1 a 5)**

Yn dilyn y broses ymgynghori ar y Strategaeth Hybu a'r CSCA, dylid sicrhau cysylltiadau cryfach rhwng y ddwy strategaeth fel y gellir croesgyfeirio'r nodau strategol yn hawdd wrth iddynt ddatblygu'n gamau ymarferol (yn benodol Canlyniad 1 a 5 y CSCA).

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27 wedi'i llunio i gyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 y Cyngor. Mae camau gweithredu a thargedau perthnasol yn y cynllun gweithredu wedi'u diwygio i adlewyrchu'r targedau a gyflwynwyd yn y CSCA ac ychwanegwyd colofn arall i gadarnhau canlyniadau'r CSCA a gefnogir gan y camau a'r targedau hynny.

- **Argymhelliad 6: Caerdydd Ddwyeithog/Bilingual Cardiff**

Dylai'r Cyngor ehangu adnoddau tîm Caerdydd Ddwyeithog. Gallai cyngor polisi ac arbenigedd gan y tîm ychwanegu gwerth a darparu mewnbwn gwerthfawr a sicrwydd o gydymffurfiaid wrth i adrannau eraill gynllunio eu gwasanaethau yn unol â nodau strategol y Cyngor.

Mae'r argymhelliad hwn wedi'i ymgorffori mewn cynlluniau ailstrwythuro ar gyfer Caerdydd Ddwyeithog er mwyn cynyddu gallu presennol y tîm i ddarparu cymorth polisi. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer Swyddog Polisi newydd hefyd ac mae recriwtio ar y gweill ar hyn o bryd.

6. Datblygu Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27

Mae diwygio'r Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog gyntaf a datblygu Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27 yn ofyniad statudol yn unol â Safon y Gymraeg 145. Yn ogystal â'r argymhellion a gafwyd gan Nico, roedd y Strategaeth ddiwygiedig yn destun ymgynghoriad â Phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyeithog a chynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol gyda staff y Cyngor a chyda'r cyhoedd. Nododd yr ymarferion ymgynghori feysydd blaenoriaeth a chamau gweithredu i boblogi cynllun gweithredu'r Strategaeth.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-27 wedi'i halinio â Cymraeg 2050, Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae strwythur y Strategaeth a'r cynllun gweithredu yn dilyn y tair thema a nodwyd yn Cymraeg 2050:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae'r camau gweithredu a gyflwynir yng nghynllun gweithredu'r Strategaeth yn dilyn y tair thema hyn i sicrhau y gall Cyngor Caerdydd gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru a bodloni gofynion Cymraeg 2050.

Datblygwyd y Strategaeth Caerdydd Ddwieithog hefyd ar y cyd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 (CSCA) Cyngor Caerdydd. Mae amcanion y CSCA a gefnogir gan Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-27 wedi'u nodi yng nghynllun gweithredu'r Strategaeth. Er mwyn cyflawni'r Strategaeth a'r CSCA, bydd angen cydweithredu a chydweithio agos rhwng Caerdydd Ddwieithog, Adran Addysg y Cyngor, a'u partneriaid. Bydd alinio'r ddwy ddogfen strategaeth fel hyn yn cefnogi gwaith partneriaeth agosach yn seiliedig ar nodau y cytunwyd arnynt ar y dydd.

Bydd Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-27 a'i chynllun gweithredu ategol yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth ag aelodau Fforwm Caerdydd Ddwieithog. Sefydlwyd y Fforwm i gefnogi'r Strategaeth Caerdydd Ddwieithog gyntaf ac mae ei aelodau'n cynnwys nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach, cyrff diwylliannol, a sefydliadau Cymraeg fel yr Urdd, Mudiad Meithrin a Menter Caerdydd. Bydd y model gwaith partneriaeth yn cael ei ddatblygu ymhellach dros y cyfnod 5 mlynedd nesaf a bydd aelodaeth y Fforwm yn cael ei hehangu i gynnwys cynrychiolwyr o feysydd eraill fel y sector preifat a busnesau.

Mae'r camau gweithredu a gyflwynir yng nghynllun gweithredu'r Strategaeth yn uchelgeisiol ac yn ceisio dyfnhau'r ddarpariaeth Gymraeg a sefydlu'r egwyddor o weithio gyda phartneriaid ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Mae'r prif amcanion yn cynnwys sefydlu Fforwm Ieuenctid Cymraeg, Swyddog Hyrwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg ar draws De-ddwyrain Cymru, cymorth ac ymgysylltiad â rhieni sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg, a hyrwyddo darpariaeth Gymraeg gyda chymunedau ethnig lleiafrifol.

7. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-21

Datganiad Cenhadaeth y CSCA

Bydd pob plentyn yn ein dinas yn hyderus yn ei sgiliau Cymraeg erbyn 2050, er mwyn cyfrannu at greu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog lle y caiff y Gymraeg ei hamddiffyn a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

Gweledigaeth y CSCA

Bydd system addysg Caerdydd yn gweithredu fel sbardun allweddol i sicrhau y gall plant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a chreu siaradwyr newydd i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cynyddodd nifer y disgyblion a gofrestrwyd mewn Dosbarth Derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyson rhwng 2005/06 a 2012/13, er bod canran y cyfanswm a oedd yn derbyn lleoedd yn amrywio. Mae niferoedd a chanrannau ers hynny wedi amrywio, ond gyda'r duedd gyffredinol tuag at gynnydd yn y ddau. Mae nifer y disgyblion a gofrestrwyd yn 2021/22 yn cynrychioli gostyngiad bach o gymharu â'r nifer a'r ganran uchaf o ddisgyblion a gofrestrwyd mewn Dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg a gofnodwyd ar gyfer Caerdydd yn 2020/21. Gan fod perthynas uniongyrchol rhwng nifer y disgyblion a gofrestrir mewn dosbarthiadau Cymraeg â'r boblogaeth disgyblion, sy'n gallu cynyddu neu ostwng, mae cynnydd yn y ganran yn fesur mwy priodol o lwyddiant wrth hybu addysg Gymraeg.

Gweler tabl 1 isod:

Blwyddyn Ysgol	Nifer derbyn gwirioneddol (C)	Nifer derbyn gwirioneddol (C, S a Ffydd)	% nifer derbyn gwirioneddol (C)	Blwyddyn Ysgol	Nifer derbyn gwirioneddol (C)	Nifer derbyn gwirioneddol (C, S a Ffydd)	% nifer derbyn gwirioneddol (C)
2006/07	465	3,257	14.3%	2014/15	706	4,246	16.6%
2007/08	519	3,463	15.0%	2015/16	690	4,335	15.9%
2008/09	555	3,474	16.0%	2016/17	744	4,340	17.1%
2009/10	572	3,683	15.5%	2017/18	707	4,098	17.3%
2010/11	594	3,859	15.4%	2018/19	702	4,125	16.9%
2011/12	651	4,019	16.2%	2019/20	683	4,119	16.6%
2012/13	686	4,221	16.3%	2020/21	749	4,136	18.1%
2013/14	678	4,256	15.9%	2021/22	657	3,789	17.3%

Tabl 1: Niferoedd a chanran y disgyblion a dderbyniwyd i addysg cyfrwng Cymraeg o 2006/07 i 2021/22

Dyrannwyd 657 o leoedd Derbyn i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer mis Medi 2021, sef **17.3%** o gyfanswm y derbyniadau ar draws y ddinas. Mae hyn yn ostyngiad ar y flwyddyn flaenorol. Lleihaodd y gostyngiad yn nifer y disgyblion y dyrannwyd lleoedd cyfrwng Cymraeg iddynt oherwydd gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n cael eu derbyn i leoliadau cyfrwng Cymraeg fel canran o'r cyfanswm a dderbynnir hefyd wedi gostwng.

Mae data dewisiadau cynnar ar nifer y disgyblion sy'n dechrau'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2022 yn awgrymu cynnydd yng nghyfanswm nifer y disgyblion y dyrannwyd lle mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg iddynt, er gwaethaf gostyngiad pellach yn y gyfradd genedigaethau.

Rhagwelir gostyngiad pellach yng nghyfanswm y derbyniadau i Ddosbarthiadau Derbyn ym mis Medi 2023 a 2024. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod hyn yn debygol o arwain at ostyngiad pellach yn y nifer wirioneddol o ddisgyblion sy'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae mwy o leoedd gwag yn caniatáu i gyfran uwch o'r boblogaeth gofrestru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y Dosbarth Derbyn. Gallai cyfanswm nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael wrth dderbyn i addysg gynradd ledled y ddinas gynnig lle felly i tua 25% o'r boblogaeth ddisgyblion a ragwelir yn 2023 a 2024. Mae digon o gapasiti yn y sector cynradd Cymraeg i ganiatáu cynnydd sylweddol o ran nifer y lleoedd a dderbynnir.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor a bydd yn cael ei weithredu o fis Ebrill 2022. Mae'r CSCA yn canolbwyntio ar gyflawni targed Llywodraeth Cymru ar gyfer Caerdydd o rhwng 25% a 29% o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2031/32.


Mae'r [Cynllun Cymraeg mewn Addysg](#) i'w weld ar wefan y Cyngor.

Tudalen
90

Cyfieithu i'r Gymraeg

Dychwelodd Caerdydd Ddwieithog **99.9%** o'r ceisiadau cyfieithu erbyn y terfynau amser y cytunwyd arnynt. Mae cyfanswm nifer y geiriau a gyfieithwyd (**14,550,626 o eiriau**) yn gynydd sylweddol ar y cyfanswm ar gyfer 2020/21 sy'n adlewyrchu'r llwyth gwaith cynyddol wrth i arferion busnes arferol gael eu hailgyflwyno gan y Cyngor a'i bartneriaid wrth i argyfwng Covid-19 leddfu.

Mae Caerdydd Ddwieithog yn cefnogi nifer o bartneriaid allanol fel Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd drwy gyfieithu dogfennau a chyfieithu ar y pryd. Yn 2021/22, cwblhaodd tîm Cyfieithu Ddwieithog Caerdydd fwy o waith ar gyfer partneriaid allanol (**7,776,028 o eiriau**) nag ar gyfer Cyngor Caerdydd (**6,774,598 o eiriau**). Mae hyn yn dyst i ymroddiad a gwaith caled y tîm Cyfieithu wrth gyflawni gwaith o'r safon uchaf i gwsmeriaid mewnol ac allanol ac i ddarparu cymorth a chefnogaeth hanfodol i'n partneriaid ar draws De-ddwyrain Cymru.



9. Cwynion yn erbyn Safonau'r Gymraeg 2021/22

Yn ystod 2021-22, derbyniwyd cyfanswm o 6 o gwynion gan y cyhoedd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Pa un a dderbyniwyd cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, aethpwyd i'r afael â hwy yn unol â'r [Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol](#).

Roedd y Cyngor hefyd yn destun **6** ymchwiliad newydd i fethiant posibl i gydymffurfio â'r safonau dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Yn 2021/22, derbyniodd y Cyngor:

- **4** ymchwiliad a arweiniodd at dderbyn Camau Gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg i fynd i'r afael ag achosion o dorri Safonau'r Gymraeg.
- **1** ymchwiliad lle cytunwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg nad oedd pwnc yr ymchwiliad yn dod o fewn cyfrifoldeb y Cyngor ac sydd felly wedi'i gau.
- **1** ymchwiliad lle cytunodd Comisiynydd y Gymraeg nad oedd y Cyngor wedi torri Safonau'r Gymraeg ac sydd felly wedi'i gau.

Mae nifer yr ymchwiliadau newydd a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg (**6**) yr un faint â nifer yr ymchwiliadau a dderbyniwyd yn 2020/21 (**6**).

10. Swyddi a hysbysebwyd yn 2020-21

Yn ystod 2021/22 hysbysebwyd **2019** o swyddi, cynnydd o 62% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- Hysbysebwyd **67** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, cynnydd o **158%** ar ffigur 2020/21.
- Hysbysebwyd **648** o swyddi lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, cynnydd o **108%** ar ffigur 2020/21.
- Hysbysebwyd **64% (1304)** o swyddi lle ystyriwyd nad oedd angen sgiliau Cymraeg ar hyn o bryd. Mae hyn yn cymharu â **72%** o swyddi yn 2019/20.

Sylwer bod y ffigurau hyn **yn ymwneud â swyddi nad ydynt yn swyddi ysgol.**

11. Hyfforddiant Iaith Gymraeg a chyrsgiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg

Yn 2021–22, cymerodd **1068** aelod o staff ran mewn cyrsiau hyfforddi Cymraeg, ac o'r rhain:

- cwblhaodd **836** aelod o staff e-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 Academi Caerdydd

- mynychodd **156** aelod o staff gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a ddatblygwyd yn fewnol gan Academi Cyngor Caerdydd ac mae hyn yn cynnwys cyrsiau blasu a chyrtsiau byr (**32** mynychwr) a chyrtsiau dwys 120 awr (**124** mynychwr).
- cwblhaodd **94** aelod o staff y cwrs ar-lein 60 awr i ddechreuwydr drwy'r cynllun 'Iaith Gwaith'.

Mae nifer yr aelodau o staff Cyngor Caerdydd sydd wedi cwblhau'r cyrsiau Cymraeg a ddarperir gan Academi Cyngor Caerdydd a thrwy'r cynllun 'Iaith Gwaith' wedi cynyddu **21%** o'i gymharu â 2020/21. Gydag e-fodiwl Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 yr Academi, mae nifer y staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg wedi cynyddu **522%**.

Ar ben hyn:

- Cwblhaodd **990** aelod o staff e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith Newydd Cyngor Caerdydd yn **2021/22**.

Caiff nifer a chanran y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith eu monitro'n agos a chaiff cofnodion unigol eu cadw ar System AD fewnol y Cyngor (DigiGOV).

Mae safon rhif 128 wedi'i chyflwyno i Gyngor Dinas Caerdydd, sy'n nodi bod yn rhaid i ni ddarparu hyfforddiant i staff yn Gymraeg yn y meysydd canlynol, os cânt eu darparu yn Saesneg:

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Cwynion a gweithdrefnau disgyblu;
- Sefydlu;
- Delio â'r cyhoedd
- Iechyd a diogelwch

Mae trefniadau ar waith i sicrhau y gall staff wneud cais i dderbyn eu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â safon 128. Yn 2020-21 ni chafwyd unrhyw geisiadau am hyfforddiant yn Gymraeg. Cyflwynir y cyrsiau canlynol yn Gymraeg:

- Trais yn Erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (modiwl ar-lein)
- Seiberddiogelwch 1, 2 a 3 (modiwl ar-lein)
- Hawliau Plant (modiwl ar-lein)
- Ymwybyddiaeth Iaith (modiwl ar-lein)
- Gwasanaeth Cwsmeriaid (modiwl ar-lein)
- Bob's Business: GDPR (modiwl ar-lein)
- Ymwybyddiaeth Twyll (modiwl ar-lein)
- Polisi a Gweithdrefn Disgyblu (modiwl ar-lein)

Mae Academi Caerdydd yn bwriadu ychwanegu cwestiwn penodol ar gyfrwng cyflwyno i'r broses gofrestru yn y dyfodol i sicrhau bod hyfforddiant yn Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a bod staff yn ymwybodol o'u hawl i dderbyn hyfforddiant yn y meysydd uchod, yn Gymraeg. Lle mae'r galw'n ddigonol, byddwn yn sicrhau bod hyfforddiant mewnol yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.

12. Sgiliau Cymraeg Cyflogeion

Gyda datblygiad y system AD (DigiGOV) a'r cyfle i aelodau o staff ddilysu eu data personol eu hunain, mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gofnodi sgiliau Cymraeg (ac ieithoedd eraill) aelodau o staff. Ar 31 Mawrth 2022, nodwyd bod **6474** o aelodau staff (nad ydynt mewn ysgolion) yn cael eu cyflogi gan Gyngor Caerdydd, ac o'r rhain, dilysodd cyfanswm o **4,753** o aelodau o staff eu cofnodion ar y system AD. O'r rhain mae **939** aelod o staff wedi nodi bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg. Mae hyn yn gynydd ar y nifer a adroddwyd yn 2020/21 (**837**) ac mae'n cynrychioli **17.25%** o'r rhai sydd wedi'u cofrestru ar y system neu **14.5%** o weithlu cyfan y Cyngor.

	Lefelau Hyfedredd						
Gwasanaeth	Lefel Mynediad	Sylfaen	Canolradd	Uwch	Hyfedr	Cyfanswm	Canran staff y gwasanaeth
OEDOLION, TAI A CHYMUNEDAU	190	64	44	32	38	368	15.86%
GWASANAETHAU PLANT	45	23	11	5	18	102	19.88%
DATBLYGU ECONOMAIDD	48	16	18	9	12	103	7.42%
ADDYSG A DYSGU GYDOL OES (ac eithrio ysgolion)	49	19	13	9	23	113	13.65%
LLYWODRAETHU A GWASANAETHAU CYFREITHIOL	15	5	2	6	7	35	33.02%
PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU	5	6	1	2	16	30	40.54%
CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD	30	6	6	2	6	50	10.64%
ADNODDAU	56	25	12	13	32	138	17.25%
							Canran y staff Corfforaethol
Cyfanswm	438	164	107	78	152	939	14.50%

Tystiolaeth

Mae nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi cynyddu gan **8.6%** ers 2020-21 (**939 yn 21/22** o gymharu â **837 yn 20/21**). Priodolir y cynnydd hwn i godi ymwybyddiaeth, y Strategaeth Caerdydd Ddwieithog (sy'n cynnwys targed i gynyddu nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg) a chyrsgiau Cymraeg a ddarperir yn fewnol drwy ein tiwtor Cymraeg mewnol yn ogystal â'r Cynllun 'Iaith Gwaith'. Croesawyd y cynnydd yn ystod 21/22, sydd wedi bod yn flwyddyn anodd i staff oherwydd pandemig COVID-19, a roddodd lawer o staff o dan bwysau yn y gwaith a gartref. Atgoffir staff yn rheolaidd i ddiweddarau eu cofnodion manylion personol ar DigiGOV, ac mae'r rhain yn cynnwys dewis iaith a hyfedredd yn y Gymraeg.

13. Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol

Mae Cyngor Caerdydd – mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Choleg Caerdydd a'r Fro yn gweithredu Fforwm Iaith Gymraeg i barhau ag amcanion Mwy na Geiriau.

Yn ystod 2021/22 mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymuno â'r Fforwm ac mae hyn yn adlewyrchu mwy o ffocws ar ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio presennol yn y maes gofal cymdeithasol. Trafodwyd nifer o themâu a champau gweithredu yn y cyfarfodydd deufisol ac mae Cyngor Caerdydd wedi rhannu adnoddau fel ei e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith, y Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg, a chanllawiau ar recriwtio a hyfforddi staff Cymraeg eu hiaith gyda'r partneriaid. Bydd aelodaeth yn cael ei hehangu ymhellach i gynnwys darparwyr hyfforddiant ychwanegol, a phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach i ddatblygu a gweithredu mentrau recriwtio i annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r maes gofal cymdeithasol.

14. Monitro a Goruchwylio Cydymffurfiaeth â'r Safonau

CYDLYNWYR A PHENCAMPWYR Y GYMRAEG

Mae gan y Cyngor rwydwaith o gydlynwyr a phencampwyr y Gymraeg ledled ein Cyfarwyddiaethau a'n Gwasanaethau amrywiol, sy'n cefnogi gwaith tîm Caerdydd Ddwieithog o ran gweithredu Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol. Mae swyddogaeth rhwydwaith y cydlynwyr yn cynnwys:

- Cynorthwyo eu gwasanaeth neu eu cyfarwyddiaethau i gyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor a'r gofynion o ran Safonau'r Gymraeg.
- Rhoi adborth am unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan y gwasanaeth i'r grŵp, ac fel arall yn ôl yr angen.
- Rhoi adborth am unrhyw gwynion neu faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg gan ddefnyddwyr gwasanaeth i'r grŵp.
- Dosbarthu dogfennaeth berthnasol a gwybodaeth o fewn y gwasanaethau.
- Cydlynu ymateb eu gwasanaeth i'r Adroddiad Blynyddol am weithrediad Safonau'r Gymraeg.

Nid oes angen i gydlynwyr a phencampwyr siarad Cymraeg, ac mae pob cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am enwebu o leiaf un Cydlynnydd, ac un Pencampwr, ar lefel Rheolwr Gweithredol neu uwch, i gynrychioli ei gyfarwyddiaeth.

Mae'r Pencampwr yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar lefel uwch reolwr mewn perthynas â materion penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Maen nhw hefyd yn monitro agendâu grwpiau uwch reolwyr ar gyfer eitemau sy'n ymwneud â goblygiadau Safonau'r Gymraeg ac yn cefnogi Cydlynnydd Cymraeg eu gwasanaeth wrth hwyluso gweithredu Safonau'r Gymraeg o fewn eu cyfarwyddiaethau. Mae cyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg yn cael eu cynnal bob mis ac yn cael eu cadeirio gan Caerdydd Ddwyeithog.

GRŴP AELODAU CAERDYDD DDWYIEITHOG

Mae Grŵp Aelodau Caerdydd Ddwyeithog yn grŵp trawsbleidiol a sefydlwyd i gymryd rôl arweiniol o ran datblygu Caerdydd gwbl ddwyieithog lle gall dinasyddion a staff Cyngor Caerdydd gael gwasanaethau a chymorth yn y naill iaith neu'r llall yn gyfartal trwy waith partneriaeth gwell. Yn ystod 2021-22 cyfarfu'r grŵp 4 gwaith i drafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys gweithredu Safonau'r Gymraeg, darparu gwasanaethau yn ystod argyfwng Covid-19, Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27, a gweithrediad Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg ddiwygiedig y Cyngor.

CYNLLUNIAU CYFLAWNI CYFARWYDDIAETHAU

Yn dilyn argymhellion a wnaed gan Dîm Archwilio Cyngor Caerdydd, mae'n ofynnol i bob un o gyfarwyddiaethau'r Cyngor gynnwys manylion y Camau Gorfodi a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn eu Cynlluniau Cyflawni Adrannol. Mae'r wybodaeth ofynnol yn cynnwys disgrifiad o'r Camau Gorfodi unigol, swyddog cyfrifol y Cyngor a'r dyddiadau y cwblhawyd y Camau Gorfodi, a'r dystiolaeth o gwblhad a roddwyd i Gomisiynydd y Gymraeg.

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau yn ystod y flwyddyn wrth i Gamau Gorfodi gael eu derbyn a'u gweithredu. Bydd cynnwys yr wybodaeth hon yn cynnig cofnod byw o weithrediad y Cyngor o'r Camau Gorfodi a dderbyniwyd a chofnod hygyrch i hwyluso adrodd wrth gyfathrebu â Chomisiynydd y Gymraeg ac i gefnogi'r Adroddiad Blynnyddol am Safonau'r Gymraeg.

Cafodd canllawiau i gefnogi swyddogion y Cyngor a'u hysbysu o'r gofynion wrth gynnwys Camau Gorfodi a dderbyniwyd yng Nghynlluniau Cyflawni eu Cyfarwyddiaeth eu paratoi gan Caerdydd Ddwyeithog a'u cymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor. Bydd y ddogfen ganllaw ar gael ar dudalen mewnwyd Caerdydd Ddwyeithog a chaiff ei chyflwyno i Uwch Reolwyr a Rheolwyr gan swyddogion Caerdydd Ddwyeithog.

UWCH DÎM RHEOLI

Mae materion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i gyfarfodydd yr UDRh er gwybodaeth ac i alluogi gweithredu.

Y CABINET A'R CYNGOR LLAWN

Caiff Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Cyngor Caerdydd ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor llawn er mwyn sicrhau gwaith craffu ar y lefel uchaf.

15. Hyrwyddo a Hwyluso'r Safonau

CANLLAWIAU STAFF

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso gweithrediad y safonau, mae'r Cyngor wedi creu a diweddarau canllawiau i staff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Crynodeb o 'Safonau Cyflawni Gwasanaeth'
- Cyfathrebu'n Ddwieithog
- Gwasanaethau Ddwieithog Derbynfydd
- Cynnal Cyfarfodydd yn Ddwieithog
- Galwadau Ffôn Cymraeg
- Nodyn Canllaw: Arwyddion a Hysbysiadau Swyddogol Ddwieithog
- Canllawiau Cyfieithu
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw Camau Cyflym
- Safonau'r Gymraeg: Canllaw i Drydydd Partion
- Asesu Sgiliau Cymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol
- Gweithdrefnau Recriwtio, Cyfweld a Dethol a'r Iaith Gymraeg.

Mae'r canllawiau hyn ar gael i staff ar dudalen mewnwyd Caerdydd Ddwieithog ac wedi eu hyrwyddo'n gyson i staff trwy ddulliau cyfathrebu cyfarwydd gan gynnwys y Briff Craidd misol a chylchlythyron 'Materion Cymreig' sy'n cael eu dosbarthu i'r holl staff. Mae erthyglau rheolaidd hefyd wedi ymddangos ar hafan mewnwyd y Cyngor.

Mae arwyddion derbynfa (safon 67) a logos llofnod e-bost (safon 134) hefyd ar gael i aelodau o staff ar dudalen mewnruyd Caerdydd Ddwieithog yn ogystal â chopi o'r safonau llawn, adroddiadau blynyddol, a'r ffurflen cais cyfieithu ar-lein.

Mae cynnwys y we a'r ffurflen cais cyfieithu wedi'u diweddarau i atgoffa staff i gynnwys y datganiadau corfforaethol i gydymffurfio â safonau 2, 3 a 7 (Gohebiaeth), 49 (ffurflenni) a 50A (dogfennau).

BRÏFF 'MATERION CYMREIG'

Dosberthir y briff Materion Cymreig i staff drwy'r rhwydwaith cydlynwyr iaith Gymraeg. Mae'r briff yn cynnwys cyngor polisi ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, gwybodaeth am hyfforddiant Gymraeg ac erthyglau eraill sy'n ymwneud â'r agenda iaith Gymraeg.

CLWB CYMDEITHASOL C4

Mae adnodd i hyrwyddo a hwyluso digwyddiadau rhithwir Cymraeg wedi cael ei ddatblygu a'i lansio gan hyfforddwr Cymraeg mewnol y Cyngor. Cyflwynir yr adnodd ar lwyfan Microsoft Teams ac mae'n galluogi defnyddwyr i drefnu cyfarfodydd, grwpiau trafod a digwyddiadau cymdeithasol fel y gall siaradwyr Cymraeg a dysgwyr gwrdd â'i gilydd i sgwrsio yn Gymraeg a gwella sgiliau iaith. Trefnwyd cyfarfod wythnosol hefyd gan diwtor Cymraeg y Cyngor. Cynhaliodd y clwb cymdeithasol ddigwyddiad Dydd Gŵyl Dewi a oedd yn cynnwys sgwrs gan Liz Day sydd wedi dysgu Cymraeg yn rhugl yn ystod y cyfnod clo a daeth llawer o staff iddo.

CAERDYDD DDWYIEITHOG: CYNGOR CYFIEITHU A PHOLISI

Mae Caerdydd Ddwieithog yn cynnig gwasanaeth cyfieithu Cymraeg a chyfieithu ar y pryd llawn i bob Cyfarwyddiaeth yn y Cyngor.

Mae'r tîm yn cynnig arweiniad a chynngor i bob aelod o staff y Cyngor, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n cynnig gwasanaethau ar y Cyngor, ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Cyngor i safonau statudol y Gymraeg.

HYFFORDDIANT CYMRAEG

O ganlyniad i gyhoeddi'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg yn 2021, mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i roi cyfle i'w holl staff ymgysylltu â hyfforddiant iaith Gymraeg.

Mae'r e-fodiwlau Cyflwyniad i'r Gymraeg Lefel 1 ac Ymwybyddiaeth Iaith yn caniatáu i staff ddysgu geirfa ac ymadroddion cyffredin Cymraeg a darparu cyd-destun hanesyddol a diwylliannol ar gyfer yr iaith.

Mae Academi Cyngor Caerdydd hefyd wedi datblygu amrywiaeth eang o gyrsiau Cymraeg. Mae'r rhain wedi'u teilwra i ganiatáu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i annog staff y Cyngor i gymryd rhan. Dyma'r cyrsiau a ddatblygwyd gan Academi Cyngor Caerdydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- **Mynediad Ar-lein (Cymraeg Lefel 1)** – cwrs rhithwir hunanastudio yn bennaf.
 - **Mynediad (Cymraeg Lefel 1)** – cwrs rhithwir sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor.
 - **Sylfaen (Cymraeg Lefel 2)** – cwrs rhithwir lefel sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor.
 - **Rhagflas Hanner Diwrnod** – cwrs cyflwyno dan arweiniad tiwtor.
 - **Canolradd (Cymraeg Lefel 3)** - cwrs sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor ar gyfer dysgwyr mwy hyderus a'r rhai sy'n siarad Cymraeg ond sydd wedi colli eu hyder ar lafar.
 - **Dechreuwyr Deuddydd** – cwrs rhithwir dan arweiniad tiwtor i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol cadarn.
- Tudalen 100**
- **CROESO Rhan 1** – cwrs rhithwir hunanastudio y gall staff ei gwblhau ar unrhyw adeg.
 - **Mynediad (Cymraeg Lefel 1) Trochi** – cwrs sy'n cael ei arwain gan diwtor a gyflwynir drwy sesiwn 4 awr wythnosol.
 - **Uwch (Cymraeg Lefel 4)** – cwrs sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor gyda ffocws ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
 - **Hyfedredd (Cymraeg Lefel 5)** – cwrs sy'n gymysgedd o hunanastudio ac arweiniad gan diwtor sy'n canolbwyntio ar Gymraeg ysgrifenedig a Chymraeg llafar mwy ffurfiol.

Darparwyd tiwtor gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynorthwyo tiwtor Cymraeg mewnol Academi Cyngor Caerdydd i gyflwyno'r cyrsiau hyn ac i gefnogi staff sy'n dysgu Cymraeg.

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwmo i roi cyfle i'w staff dderbyn hyfforddiant iaith Gymraeg ac nid oes cost unigol i staff y Cyngor, na'u cyfarwyddiaethau, ac mae staff yn cael eu credydu am amser yn mynychu cyrsiau.

HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH IAITH

Diwygiwyd y modiwl ymwybyddiaeth iaith yn 2020/21 a'i gyflwyno fel e-fodiwl gan lwyfan dysgu Academi Cyngor Caerdydd. Mae'n cael ei gyflwyno i'r holl staff ar hyn o bryd (gan gynnwys staff ysgolion). Ers ei lansio, mae'r e-fodiwl wedi'i gwblhau gan **4460** aelod o staff.

Mae'r e-fodiwl yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- Cyd-destun hanesyddol y Gymraeg.
- Pwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor i ddinasyddion Caerdydd.
- Rôl a chyfrifoldeb staff o ran cynnig gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog.
- Asesu sut y darperir gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd a nodi meysydd i'w gwella.

LANIARDIAU A BATHODYNNAU 'IAITH GWAITH'

Cynhyrchir laniardiau iaith Gwaith gan Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg er mwyn dangos i ddefnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr eu bod yn siarad Cymraeg. Cynigir y laniardiau hyn - ynghyd â laniardiau dysgwr Cymraeg - i staff pan fyddant yn derbyn neu'n adnewyddu eu cardiau adnabod staff, neu gellir gwneud cais am un unrhyw bryd gan Caerdydd Ddwyieithog. Mae pob brîff misol 'Materion Cymreig' sy'n cael ei ddosbarthu i bob aelod o staff trwy gydlynnydd iaith Gymraeg ei gyfarwyddiaeth neu wasanaeth yn cynnwys nodyn i atgoffa staff i ofyn am y laniardiau gan Caerdydd Ddwyieithog.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



Adolygiad o Strategaeth Hybu Caerdydd Ddwyeithog 2017-22

“Mae gan strategaethau 5 mlynedd botensial enfawr i wneud awdurdodau lleol yn asiantaethau hybu’r Gymraeg o fewn eu hardaloedd, gan gydlynu a gyrru ymdrechion mewn meysydd mor amrywiol ag addysg, economi, cynllunio, ieuenctid, twristiaeth, gofal ac ati. Ond prin yw’r enghreifftiau o fentrau newydd yn digwydd yn sgil y strategaethau, a phrin yw’r cyllid a’r adnoddau y mae sefydliadau wedi eu buddsoddi yn y gwaith.

Mae cyfle ar y gorwel i newid hyn, gyda gofyniad y sefydliadau i adolygu a llunio strategaethau newydd yn 2022. Nawr yw’r amser i ddechrau cynllunio a mesur effaith er mwyn sicrhau bod y strategaethau’n cael effaith wirioneddol ar sefyllfa’r Gymraeg yn gymunedol yn ystod y ddegawd hon”

Comisiynydd y Gymraeg, Cau’r Bwlch, Adroddiad Sicrwydd 2019-20

1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol hwn gan Nia Davies o gwmi Nico, ac fe'i comisiynwyd gan y Cyngor er mwyn asesu cyflawniad Strategaeth Hybu Caerdydd Ddwyeithog ar ddiwedd ei phum mlynedd yn ogystal â chynnig argymhellion perthnasol wrth lunio'r ail strategaeth ar gyfer 2022-2027.

Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Hydref a Thachwedd 2021, ac fe'i seiliwyd ar ymchwil pen desg, adolygiad o ddogfennaeth fewnol ynghylch strategaeth y Cyngor a chyfweliadau gyda phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid mewnol. Roedd yr ymchwil hefyd yn cynnwys ystyriaeth o'r Proffil Iaith a luniwyd gan Fenter Caerdydd yn 2021, dogfennau canllaw Comisiynydd y Gymraeg; strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ynghyd â CSCA drafft y Cyngor.

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried y strategaeth yn ei chyd-destun statudol a pholisi; i ba raddau mae amcanion safonau 145 a 146 wedi'u cyflawni; ac yn amlinellu casgliadau ac argymhellion i'w hystyried gan y Cyngor ar gyfer cyfnod y strategaeth ddilynol.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Crynodeb	4
3.	Cyd-destun	5
4.	Targedau a mesur perfformiad	12
5.	Adborth rhanddeiliaid	21
	<ul style="list-style-type: none">• Prif wersi• Llwyddiannau• Fforwm Caerdydd Ddwyeithog• Heriau• Mesur effaith	
6.	Casgliadau	31
7.	Argymhellion	33
8.	Atodiad 1 – Rhestr gweithgareddau	

2. Crynodeb

Nod yr adolygiad hwn yw asesu i ba raddau mae'r Cyngor wedi bodloni gofynion safonau 145 a 146, Safonau'r Gymraeg.

Mae cyhoeddi Strategaeth Hybu yn ofyniad statudol penodol, ond mae'r Strategaeth ei hun yn benllanw llw o weithredu strategol gan y Cyngor a'i bartneriaid ac yn rhoi ffocws i'r gweithgareddau hynny.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod ei pherthnasedd yng nghyd-destun amcanion strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, a'i rôl oddi mewn i gyd-destun polisi ehangach gydag addysg a llesiant yn flaenllaw.

Hyd nes y cawn ffigurau Cyfrifiad 2021, yn ôl y dystiolaeth a welir o ran rhagamcanion y Cyngor ynghylch poblogaeth y ddinas yn 2021, ffigurau Arolwg Blynyddol y Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru gwelir bod tuedd galonogol i'r cyfeiriad cywir, ac mae'r ddinas wedi llwyddo i gynnal ei chanran o siaradwyr Cymraeg wrth i'r boblogaeth dyfu.

Daw'r adolygiad hwn i'r casgliad fod y Cyngor wedi bodloni ei ofynion o dan safonau 145 a 146 drwy bennu targed o ran canran a nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, ynghyd ag amlinellu yn y strategaeth sut y byddai'n anelu at gyrraedd y targed hwnnw ar ffurf cynllun gweithredu a thargedau i'r Cyngor ac i bartneriaid. Mae'r Cyngor wedi ateb pob targed a bennwyd ganddo yn wreiddiol sydd yn ei dro yn sylfaen dda i'r strategaeth nesaf.

Mae'r adolygiad hwn yn bodloni'r gofyniad yn safon 146 i asesu i ba raddau mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed a bennwyd, ac yn ei dro, mae'r asesiad yn cynnig adborth defnyddiol ar gyfer y gwaith o lunio strategaeth 5 mlynedd ddiwygiedig ac uchelgeisiol i'w chyhoeddi maes o law.

Mae adborth partneriaid a rhanddeiliaid yn amlygu sawl enghraifft o arfer da ac yn cyfeirio at nifer o gyfleoedd i'r Cyngor gryfhau trywydd y strategaeth ddilynol. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn felly yn ceisio ategu'r canfyddiadau hyn. Amlinellir yr argymhellion ar dudalen 33 gyda'r nod o ddarparu her wrth gynllunio i'r dyfodol.

3. Cyd-destun

Mae Strategaeth Hybu Caerdydd Ddwyeithog yn ofyniad statudol penodol sy'n deillio o Reoliadau Safonau'r Gymraeg, ond mae hefyd yn bodoli mewn cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach wrth gwrs. Mae'r Strategaeth yn cydnabod ei pherthynas ag amcanion strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith, a'i rôl ochr yn ochr â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ogystal ag amcanion ehangach meysydd llesiant.

i. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Bydd y targedau ar gyfer y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn cael eu diwygio yn dilyn cyhoeddi data Cyfrifiad 2021.

Mae'r dull gweithredu a nodir yn y ddogfen hon wedi'i strwythuro i adlewyrchu'r meysydd strategol a amlinellir yn Cymraeg 2050, Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae Cymraeg 2050 wedi'i strwythuro o gwmpas 3 maes strategol sydd wedi'u pennu gyda'r nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-27 yn nodi ein blaenoriaethau strategol o dan bob un o'r meysydd hyn, ac yn nodi'r newid y bydd angen i ni ei wneud i wireddu ein gweledigaeth o Gaerdydd ddwyeithog.

Mae hon yn strategaeth i'r ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig. Bydd cyflawni'r strategaeth felly yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg ac, yn bwysicach na dim, gyda phobl Caerdydd.

Mae'r Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog gyntaf wedi creu perthynas werthfawr a chynhyrchiol gyda phartneriaid ar draws dinas Caerdydd o dan faner Caerdydd Ddwyeithog. Maent yn cynnwys sefydliadau fel Mudiad Meithrin, yr Urdd a Menter Caerdydd, darparwyr addysg uwch ac addysg bellach megis Prifysgol Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro, a sefydliadau diwylliannol fel Canolfan Mileniwm Cymru a Llenyddiaeth Cymru.

Bydd y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2022-27 yn dyfnhau'r cydberthnasau hyn drwy gytuno ar a chyflawni canlyniadau ac amcanion uchelgeisiol ac eang eu cwrpas fel rhan o gynllun gweithredu Caerdydd Ddwyeithog. Bydd Caerdydd Ddwyeithog hefyd yn ceisio ymestyn y rhwydwaith partneriaid o ran cynrychiolaeth ar gyfer dinasyddion Caerdydd a thrwy gynnwys partneriaid rhanbarthol ar draws rhanbarth de-ddwyrain Cymru.

Bydd cefnogi pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau i ddysgu a siarad Cymraeg hefyd yn ganolog i'r gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld cynnydd sylweddol yn nhwf addysg Gymraeg yn y ddinas, gyda chynnydd parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sydd bellach yn cael addysg Gymraeg.

Bydd y system addysg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 y Cyngor yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau twf yr iaith yn y dyfodol wrth i ni geisio cynyddu nifer y plant - a rhieni - sy'n cael y cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg, a chael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i gatiâu'r ysgol.

2. PRIFDDINAS DDWYIEITHOG: PROFFIL IAITH CAERDYDD

Mae'r ddinas wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, gyda niferoedd yn dyblu dros yr 20 mlynedd rhwng cyfrifiadau 1991 a 2011. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos bod gan 16.2% o boblogaeth Caerdydd un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (y gallu i ddarllen, ysgrifennu a/neu ddeall Cymraeg) ac mae 36,735 neu 11.1% o boblogaeth y sir yn siaradwyr Cymraeg.

Rhagwelir y bydd nifer y siaradwyr Cymraeg yn 42,584 yn 2021¹. Caiff yr amcanestyniad hwn ei ddilysu, a chaiff yr holl dargedau cysylltiedig eu diwygio yn ôl yr angen, ar ôl cyhoeddi data Cyfrifiad 2021.

Cymhariaeth yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 1991 a 2021:

CAERDYDD			
1991	2001	2011	2021 (amcanestyniad)
18,071 (6.6%)	32,504 (11%)	36,735 (11.1%)	42,584 (11.6%) ²

Mae Caerdydd wedi gweld cynnydd cyson yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg dros y 30 mlynedd diwethaf ac ar hyn o bryd dyma'r awdurdod lleol sydd â'r trydydd nifer uchaf³ o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru

Mae'r crynodiad o siaradwyr Cymraeg ar draws wardiau etholiadol y ddinas yn amrywio o 7-9% mewn ardaloedd fel Llanrhymini, Adamsdown a Butetown i 17-19% yng Nghreigiau / Sain Ffagan, Pentyrch a Threganna⁴. Rhagwelir y bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos cynnydd parhaus yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg ar draws dinas Caerdydd.


1. Yn seiliedig ar Arolwg Blynyddol y Boblogaeth Llywodraeth Cymru a Data Proffil Awdurdodau Lleol.

2. Yn seiliedig ar boblogaeth ragamcanol Llywodraeth Cymru ar gyfer Caerdydd yn 2021 (365,317).


3. Arolwg Blynyddol y Boblogaeth

4. Data Cyfrifiad 2011





Nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru mewn addysg Gymraeg 2015 - 2027 (rhagamcan 2021 - 2027)



Mae'r twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi ei yrru gan ddwy duedd amlwg:

1. Mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg wedi mudo i Gaerdydd ers yr 1980au.
2. Ehangu addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, wedi ei sbarduno gan bolisi, ymarfer ac ymrwymiad rhieni a staff addysgu.⁵

Mae'r nifer a ragwelir o ddisgyblion yn ystyried y data diweddaraf ar gyfer llenwi lleoedd a ddarparwyd gan y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'r niferoedd a ragwelir yn dechrau gostwng o fis Ionawr 2024 oherwydd gostyngiad

sylweddol yn y gyfradd genedigaethau a'r gostyngiad dilynol yn y niferoedd a fydd yn mynd i ysgolion cynradd yn gyffredinol.

Ar hyn o bryd mae 3 ysgol uwchradd Gymraeg ac 17 o ysgolion cynradd Cymraeg yn y ddinas (dwyt ohonynt yn ysgolion cynradd dwy ffrwd). Mae'r data diweddaraf o niferoedd cofrestru yn cadarnhau bod 4707 o ddisgyblion yn mynychu ar lefel gynradd a 2756 o ddisgyblion 11-16 oed ar lefel uwchradd (Ebrill 2021).

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am broffil iaith Caerdydd [yma](#).

5. Gweler Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 Cyngor Dinas Caerdydd

3. CYD-DESTUN POLISI

Mae cynhyrchu, cyhoeddi a gweithredu strategaeth bum mlynedd i hyrwyddo'r Gymraeg yn ofyniad statudol sy'n deillio o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwieithog ar gyfer 2022-27 yn cynrychioli adolygiad a pharhad o'r Strategaeth Caerdydd Ddwieithog gyntaf (2017-2022) ac mae'n adeiladu ar y gwaith a wnaed yng Nghaerdydd i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a chymunedau'r ddinas.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth hon yn darparu sylfaen graidd wrth gyflawni'r nod 'lles' - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r fframwaith statudol a pholisi y mae'r strategaeth newydd hon yn gorwedd y tu mewn iddo:

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau ymddygiad o ran yr iaith Gymraeg. Mae Cyngor Caerdydd wedi gweithredu'r safonau hyn ers mis Mawrth 2016.

Diben y safonau yw sicrhau:

- bod gan bobl Cymru hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg;
- na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; a
- bod y defnydd o'r iaith yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso ym mhob agwedd ar waith a darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor.

Gwnaeth safonau'r Gymraeg ddisodli'r system o gynlluniau iaith Gymraeg a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar eu gweithrediad.



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf hon yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl yn fwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a defnyddio dull gweithredu mwy cydlynol. Un o'r saith nod Lles a restrir yn y Ddeddf yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu".

Cymraeg 2050

Wedi ei chyhoeddi yn 2017, dyma weledigaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Mae'n cyflwyno tair thema graidd a fydd yn hwyluso cyflawni'r uchelgais hon:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn manylu ar ymrwymiad ac amcanion Cyngor Caerdydd i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ac mae ei gynllun gweithredu yn dilyn y tair thema a nodir uchod.

Cyflawni Uchelgais: Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2020-22 a Chynllun Lles Caerdydd 2018-2022

Mae Cyflawni Uchelgais Prifddinas, Cynllun Corfforaethol y Cyngor, yn nodi sut y caiff blaenoriaethau'r Weinyddiaeth ar gyfer Caerdydd eu cyflawni, gan sicrhau eglurder o ran yr hyn fydd yn cael ei gyflawni, ac erbyn pryd. Mae Uchelgais Prifddinas yn nodi pedair blaenoriaeth:

- Gweithio dros Gaerdydd: Sicrhau y gall ein holl ddinasyddion gyfrannu at lwyddiant y ddinas a manteisio ar hynny.
- Gweithio dros Gymru: Mae angen prifddinas lwyddiannus i greu Cymru lwyddiannus.
- Gweithio ar gyfer y Dyfodol: Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy.
- Gweithio dros Wasanaethau Cyhoeddus: Sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon, effeithiol a chynaliadwy yn wyneb y galw cynyddol a chyllidebau llai

Mae'r Cynllun Lles Caerdydd yn nodi blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd dros y 5 mlynedd nesaf ac wedi hynny. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wir yn gofyn am waith partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Caerdydd 2030

Dyma weledigaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer addysg ac mae'n adeiladu ar ymgysylltu ac ymgynghori helaeth gydag arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, addysgwyr ehangach, partneriaid a rhanddeiliaid, ynghyd â llawer o blant a phobl ifanc, rhwng Ionawr a Gorffennaf 2019.

Mae'n ceisio atgyfnerthu'r cyflawniadau a wnaed o dan Caerdydd 2020 ond hefyd yn nodi cwmipas ehangach ac uchelgais uwch ar gyfer dysgu yng Nghaerdydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cofleidio dysgu y tu hwnt i waliau ysgol statudol ffurfiol, ac yn ceisio atgyfnerthu safle ysgolion o ran dysgu ledled y ddinas yn ehangach.

O dan bum nod allweddol, mae'n llywio, ar lefel uchel, y camau y credwn y bydd angen eu cymryd i wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer addysg yng Nghaerdydd hyd at 2030. Bydd y camau i gyflawni'r nodau hyn wedi eu seilio'n gadarn ar ddwy thema allweddol; cyfrifoldeb a rennir a phartneriaeth, a chydabod hawliau plant a phobl ifanc ym mhopeth a wnawn.

Caerdydd sy'n Dda i Blant

Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan ym mhwyllgor y DU ar gyfer menter Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF. Ein huchelgais yw i Gaerdydd gael ei hadnabod fel Dinas sy'n Dda i Blant: dinas â phobl ifanc yn ganolog iddi, lle mae hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu, a lle gwych i gael eich magu.

Bydd Cyngor Caerdydd yn cydweithio â'i bartneriaid i greu dinas lle gall pob plentyn a pherson ifanc rannu eu llais a chael mewnbwn ar benderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt.

4. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032 CYNGOR CAERDYDD

Paratoir Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) o dan Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

Maent yn gosod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo'r Cynllun a gyflwynwyd, cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau neu wrthod y Cynllun a gofyn i'r awdurdod baratoi un arall.

Mae'r CSCA yn canolbwyntio ar y targedau yn y Strategaeth Addysg Gymraeg a disgwylir i awdurdodau lleol adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad yn erbyn y targedau hyn. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd y CSCA yn cael ei weithredu dros gyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2022 a 2032.

Bydd Cyngor Caerdydd yn cyhoeddi ei Gynllun Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd ar gyfer 2022-2032 ym mis Chwefror 2022. Mae'r amserlenni ymgynghori a chyhoeddi ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwieithog a'r CSCA wedi'u cysoni er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnwys amcanion a chanlyniadau cydfuddiannol.

Un o'r prif argymhellion yn asesiad Nico o weithrediad y Strategaeth Caerdydd Ddwieithog gyntaf (2017-22) oedd cryfhau'r berthynas rhwng y ddwy strategaeth a chysoni targedau.

Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud mewn partneriaeth ag adran Addysg y Cyngor ac mae cynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-27 wedi'i ddiwygio ac ychwanegwyd colofn ychwanegol i gadarnhau'r Canlyniadau CSCA a gefnogir gan fentrau a chamau gweithredu penodol.

Rhaid i'r ymrwymiadau a wnaed yn y Strategaeth Caerdydd Ddwieithog i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gael eu cefnogi drwy ehangu'r addysg cyfrwng Cymraeg a gyflwynir yn y CSCA ac felly mae'r aliniad hwn yn briodol a chaiff y ddwy strategaeth eu cyhoeddi ar yr un pryd.

5. GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID

Lansiwyd y Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 5 mlynedd gyntaf yn 2017. Sefydlodd y strategaeth yr egwyddor o weithio mewn partneriaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws y ddinas.

Mae'r strategaeth 5 mlynedd hon ar gyfer 2022-27 yn adeiladu ar y cydberthnasau sefydledig a chynhyrchiol hyn i gefnogi a chyflawni ein cyd-weledigaeth o ddinas wirioneddol ddwyieithog.

Mae Fforwm Caerdydd Ddwyeithog, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o blith partneriaid Caerdydd Ddwyeithog, yn ysgwyddo'r gwaith o weithredu a monitro'r strategaeth hon ar ran eu sefydliadau, tra bydd tîm Caerdydd Ddwyeithog yn arwain ar hwyluso'r Strategaeth o safbwynt y Cyngor yn ogystal ag adrodd ar gynnydd i Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o Adroddiad Safonau'r Gymraeg Blynyddol y Cyngor. Gweler **Atodiad II** i gael rhagor o wybodaeth am brif bartneriaid Caerdydd Ddwyeithog.

Mae'r sefydliadau yn Fforwm Caerdydd Ddwyeithog hefyd wedi cyfrannu at waith y Cyngor ac mae nifer o bartneriaid wedi cyflwyno prosiectau perthnasol o ran cyfraniad eu sefydliadau tuag at weithredu Cynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog i Weithgor Caerdydd Ddwyeithog.

Mae'r Gweithgor yn grŵp trawsbleidiol o gynghorwyr Cyngor Caerdydd sy'n rhoi trosolwg o weithrediad Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog a'i chynllun gweithredu ategol.



6. THEMÂU STRATEGOL CYMRAEG 2050

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Gweledigaeth	Cynyddu nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd
Deilliant	Mae nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn parhau i gynyddu ac yn cyrraedd y targedau a nodwyd i gyflawni nodau Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
Meysydd Gwaith	<ul style="list-style-type: none">• Trosglwyddiad iaith yn y teulu• Y blynyddoedd cynnar• Addysg statudol• Addysg ôl-orfodol• Y Gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau
Meysydd Blaenoriaeth	<ul style="list-style-type: none">• Hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i hanes a'i diwylliant gyda theuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg.• Hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gyda chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a chymunedau a dangynrychiolir yng Nghaerdydd.• Cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg.• Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg gysylltu mewn modd cadarnhaol â'r Gymraeg.• Rhoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022 – 2032 ar waith.• Cynyddu'r gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gymwys i ddysgu Cymraeg fel pwnc ac i addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Gweledigaeth	Prifddinas wirioneddol ddwyieithog
Deilliant	Cynnydd sylweddol a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg

Meysydd gwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Y gweithlu • Gwasanaethau • Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
Meysydd Blaenoriaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu nifer staff Cyngor Caerdydd sy'n gallu siarad Cymraeg. • Cynyddu nifer staff Cyngor Caerdydd sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg. • Rhoi canllawiau arfer gorau i sefydliadau partner Caerdydd Ddwyeithog i gynyddu nifer eu staff sy'n siarad Cymraeg a'r nifer sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg. • Darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel a bodloni gofynion Safonau'r Gymraeg. • Sefydlu Fforwm Ieuencid i rymuso pobl ifanc i gyflwyno digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg. • Datblygu rhaglen o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg fel ail iaith.

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Gweledigaeth	Creu a chynnal amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.
Deilliannau	Cefnogir y Gymraeg drwy gynllunio ieithyddol, datblygu economaidd, llwyfannau digidol a diwylliant.
Meysydd gwaith	<ul style="list-style-type: none"> • Cymuned a'r economi • Diwylliant a'r cyfryngau • Cymru a'r byd ehangach • Technoleg ddigidol • Seilwaith ieithyddol • Cynllunio ieithyddol • Gwerthuso ac ymchwil
Meysydd Blaenoriaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu adnodd i fanylu ar yr holl gyfleoedd cyflogaeth a datblygu Cymraeg yn y ddinas. • Cynnal a datblygu ymhellach raglenni o weithgareddau diwylliannol ar gyfer plant a phobl ifanc, teuluoedd ac oedolion a phobl hŷn. • Datblygu pecyn gwybodaeth sy'n manylu ar yr holl wasanaethau a chymorth Cymraeg sydd ar gael yng Nghaerdydd. • Sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi yn y maes technoleg ddigidol er mwyn gallu defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol. • Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob datblygiad newydd yng Nghaerdydd.

ATODIADAU

Caerdydd Ddwylieithog: Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg 2022-27

ATODIAD 1 - CYNLLUN GWEITHREDU 5 MLYNEDD CAERDYDD DDWYIEITHOG

THEMA STRATEGOL 1: CYNYDDU NIFER Y SIARADWYR CYMRAEG

Meysydd Gwaith:

1. Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
2. Y blynyddoedd cynnar
3. Addysg statudol
4. Addysg ôl-orfodol
5. Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
1. Yr holl dargedau ar gyfer Thema 1 i'w diwygio ar ôl derbyn data Cyfrifiad 2021	Targedau a blaenoriaethau i'w hasesu ar ôl derbyn data'r Cyfrifiad a'u mireinio/addasu ymhellach.	Rhagwelir y bydd data'r Cyfrifiad yn cael ei gyhoeddi yn 2023	Cyfrifiad 2021	Cyngor Caerdydd	
2. Ymgyrch i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref – hyrwyddo dwyieithrwydd ac aml-ieithrwydd o fewn aelwydydd di-Gymraeg yng Nghaerdydd.	Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch Cymraeg a dwyieithog yn y cartref – e.e. Clwb Cwtsh S4C a gweithgarwch tebyg gan bartneriaid y Fforwm.	Cytuno a lansio'r ymgyrch erbyn mis Medi 2022 gyda chynnydd i'w adrodd yn flynyddol gan y partneriaid cyflawni.	Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd	Mudiad Meithrin Cymraeg i Blant Menter Caerdydd S4C Yr Urdd Cylch meithrin (grwpiau meithrin)	Deilliannau 1, 2, 3, 4 a 5

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
<p>3. Hyrwyddo addysg Gymraeg ymhlith teuluoedd di-Gymraeg i gynyddu ymwybyddiaeth o hanes y Gymraeg a meithrin balchder yn yr iaith.</p>	<p>Datblygu a chyflwyno ymgyrch ymwybyddiaeth iaith erbyn mis Gorffennaf 2024.</p> <p>Partneru gyda'r Cylchoedd Meithrin, gwasanaethau Cyngor Caerdydd (e.e. Dechrau'n Deg, Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant) a gweithwyr iechyd a bydwagedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCaF) i hyrwyddo addysg Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.</p>	<p>Mawrth 2024</p> <p>Cyflwyno'r ymgyrch ym mis Gorffennaf 2024.</p>	<p>Cytuno ar yr ymgyrch ymwybyddiaeth iaith yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Mawrth 2023</p> <p>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p> <p>Prifysgol Caerdydd</p> <p>Consortia Addysg</p> <p>Menter Caerdydd</p> <p>Yr Urdd</p> <p>BIPCaF</p> <p>Cylch Meithrin (grwpiau meithrin)</p>	<p>Deilliannau 1, 2, 3, 4 a 5</p>
<p>4. Cynyddu darpariaeth hyfforddiant Cymraeg i rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg.</p>	<p>Cynnydd yn nifer y rhieni di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg drwy bartneriaid y Fforwm.</p>	<p>Darpariaeth gychwynnol i'w chyflwyno erbyn mis Medi 2022 ac ystadegau cyfranogiad i'w hadrodd yn flynyddol gan bartneriaid cyflawni gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027.</p>	<p>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd</p>	<p>Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol</p> <p>Menter Caerdydd</p> <p>Mudiad Meithrin</p> <p>Yr Urdd</p> <p>Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF)</p> <p>Uned Drochi'r Gymraeg</p>	<p>Deilliannau 1, 2, 3, 4, 5 a 6</p>

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
5. Cynnydd mewn cyfleoedd cymdeithasol Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, a chodi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon.	Cynnydd o 25 % mewn darpariaeth gymdeithasol Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar, wedi'i darparu gan bartneriaid y Fforwm.	Darpariaeth i'w datblygu erbyn mis Medi 2022 ac ystadegau cyfranogiad i'w hadrodd yn flynyddol gan bartneriaid cyflawni gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027.	Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd	Mudiad Meithrin Cymraeg i Blant Coleg Caerdydd a'r Fro Ysgolion cynradd Caerdydd Menter Caerdydd Yr Urdd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro Comisiynydd y Gymraeg	Deiliant 1
6. Menter beilot i weithio'n ddwys mewn 2 ardal wahanol o'r ddinas ar ddwy ysgol gynradd sy'n profi gostyngiad yn nifer y plant sy'n chwilio am le yn y dosbarth derbyn/meithrin	Nodi a chytuno ar gynllun peilot gyda dwy ysgol gynradd erbyn mis Medi 2024. Lansio cynllun peilot ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25.	Medi 2023 Mehefin 2024	Cyflwyno adroddiadau partner i Fforwm CDd a Fforwm Addysg Gymraeg Cyngor Caerdydd.	Menter Caerdydd Mudiad Meithrin Yr Urdd Ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd Colegau a phrifysgolion Caerdydd	Deilliannau 1 a 2

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
7. Cynnydd yn y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg	<p>Canlyniadau'r Cyfrifiad i ddangos bod 11.6% o boblogaeth Caerdydd yn gallu siarad Cymraeg.</p> <p>Cynnydd blynyddol sy'n gyson â'r nod o weld 13% o boblogaeth Caerdydd yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2027 i'w gadarnhau gan Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith</p>	<p>Adroddiad y Cyfrifiad erbyn 2023.</p> <p>Adroddiadau'n seiliedig ar Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith i'w cyflwyno'n flynyddol yng nghyfarfod mis Mawrth y Fforwm gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027.</p>	<p>Cyfrifiad Cenedlaethol</p> <p>Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith</p>	Cyngor Caerdydd	
8. Ariannu, penodi a chynnal swydd Swyddog Hybu Addysg Gymraeg (ar draws Rhanbarth De-ddwyrain Cymru)	<p>Cytuno ar y cais am gyllid gyda Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cytuno ar flaenoriaethau a dyletswyddau'r swydd gyda phartneriaid Fforwm CDd a phenodi'r swyddog.</p> <p>Trefnu rheolwr llinell a chymorth yn y gweithle ar gyfer y swyddog.</p>	<p>Cyllid ar waith erbyn mis Ebrill 2022</p> <p>Erbyn Medi 2022</p> <p>Medi 2022 ymlaen</p>	<p>Cytundeb ariannu gyda Llywodraeth Cymru.</p> <p>Partneriaid y Fforwm i gytuno ar ddisgrifiad swydd a manyleb person a chwblhau'r broses recriwtio'n llwyddiannus.</p> <p>Y Mentrau i adrodd yn flynyddol i Fforwm CDd</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p> <p>Partneriaid y Fforwm</p> <p>Mentrau Iaith De-ddwyrain Cymru</p>	Deilliannau 1, 2, 3, 4 a 7

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
9. Cytuno a chyd-gyflwyno mentrau hybu addysg Gymraeg gyda sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau ethnig lleiafrifol	2 fenter hyrwyddo i'w cynnal ar y cyd â sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau ethnig lleiafrifol yn flynyddol.	Mentrau hyrwyddo i ddechrau ym mis Medi 2023	Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd	Cyngor Caerdydd C3SC Holl bartneriaid Fforwm CDd Uned Drochi'r Gymraeg Dalgyloedd cynradd ac uwchradd Cymraeg Caerdydd	Deilliannau 1, 2, 3, 4, 5 a 6
10. Cynnydd yn nifer y lleoedd sydd ar gael mewn addysg gynradd ac uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd.	23.2% o ddisgyblion Dosbarth Derbyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn mis Ionawr 2027. 14.7% o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2026/27.	Cynnydd i'w adrodd yn flynyddol ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar y CSCA gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027.	Adroddiad Blynyddol CSCA Cyngor Caerdydd	Cyngor Caerdydd	Deilliannau 1, 2, 3, 4 a 6
11. Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol	4.4% o'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn i'w darparu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2027	Cynnydd i'w adrodd yn flynyddol ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar y CSCA gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027.	Adroddiad Blynyddol CSCA Cyngor Caerdydd	Cyngor Caerdydd	Deiliant 6

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
<p>12. Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n astudio cymwysterau a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>14 % o ddisgyblion uwchradd yn astudio cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2027.</p>	<p>Cynnydd i'w adrodd yn flynyddol ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar y CSCA gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027.</p>	<p>Adroddiad Blynyddol CSCA Cyngor Caerdydd</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p>	<p>Deiliant 3</p>
<p>13. Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach ac uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Datblygu a chydlynu ymgyrch i hyrwyddo addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch.</p> <p>Archwilio cyfleoedd i ariannu Swyddog Pontio i gefnogi'r amcan a'r ymgyrch hyrwyddo.</p>	<p>50 % o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio ym mhrifysgolion a cholegau Caerdydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Lansio'r ymgyrch hyrwyddo erbyn mis Medi 2024.</p> <p>Astudiaeth achos i'w datblygu a'i chyflwyno i bartneriaid Fforwm CDd erbyn mis Medi 2023.</p>	<p>Mawrth 2027</p> <p>Medi 2024</p> <p>Medi 2023</p>	<p>Adroddiadau blynyddol colegau a phrifysgolion Caerdydd.</p> <p>Cytuno ar yr ymgyrch yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2024.</p> <p>Cytuno ar astudiaeth achos yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2023.</p>	<p>Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol</p> <p>Coleg Caerdydd a'r Fro</p> <p>Consortia Addysg</p> <p>Prifysgol De Cymru</p> <p>Prifysgol Caerdydd Prifysgol</p> <p>Metropolitan Caerdydd</p> <p>Coleg Cymraeg Cenedlaethol</p> <p>Ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd</p>	<p>Deiliant 7</p>

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
<p>13. Datblygu'r gweithlu addysg i gynyddu'r nifer sy'n dysgu Cymraeg fel pwnc ac yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys athrawon yn y sector addysg cyfrwng Saesneg sydd â'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac ar draws y cwricwlwm a staff arbenigol ychwanegol i gefnogi darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Parhau i fonitro data ac ymyrryd yn ôl yr angen.</p>	<p>Cynnydd i'w adrodd yn flynyddol i Fforwm CDd gyda'r targed i'w gyrraedd erbyn mis Mawrth 2027.</p>	<p>Adroddiadau blynyddol colegau a phrifysgolion Caerdydd.</p>	<p>Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol</p> <p>Coleg Caerdydd a'r Fro</p> <p>Consortia Addysg</p> <p>Prifysgol De Cymru</p>	<p>Deilliannau 3, 4, 6 a 7</p>
<p>Datblygu a darparu cymorth i athrawon o ysgolion Saesneg i uwchsgilio i'w galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys aelodaeth o'r cynllun Sabothol a chymorth hirdymor i ymarfer a gwella sgiliau iaith.</p>	<p>10 o athrawon yn derbyn y cymorth hwn yn flynyddol o fis Medi 2024.</p>	<p>Darparu cymorth erbyn mis Medi 2024.</p>	<p>Adroddiadau blynyddol colegau a phrifysgolion Caerdydd.</p>	<p>Prifysgol Caerdydd</p> <p>Prifysgol Metropolitan Caerdydd</p> <p>Coleg Cymraeg Cenedlaethol</p>	<p>Deilliannau 3, 4 a 7</p>
<p>Hyrwyddo cynnig Llywodraeth Cymru i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 mlwydd oed ac i'r gweithlu addysg gyda phartneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyieithog.</p>		<p>Ebrill 2022 ac ymlaen</p>	<p>Cyfarfodydd Fforwm CDd ac wrth gyfathrebu â phartneriaid Fforwm CDd</p>		<p>Deilliannau 3, 4, 6 a 7</p>

THEMA STRATEGOL 2: CYNYDDU'R DEFNYDD O'R GYMRAEG

Meysydd Gwaith:

1. Y gweithlu,
2. Gwasanaethau,
3. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
1. Yr holl dargedau ar gyfer Thema 2 i'w diwygio ar ôl derbyn data Cyfrifiad 2021	Targedau a blaenoriaethau i'w hasesu ar ôl derbyn data'r Cyfrifiad a'u mireinio/addasu ymhellach.	Rhagwelir y bydd data'r Cyfrifiad yn cael ei gyhoeddi yn 2023	Cyfrifiad 2021	Cyngor Caerdydd	
2. Sefydlu Fforwm Ieuentid Caerdydd Dwyieithog. Holl bartneriaid Fforwm CDd i nodi un person ifanc i'w cynrychioli fel aelodau o'r Fforwm Ieuentid. Nodi a chadarnhau cyllid i ariannu gweithgarwch a digwyddiadau y cytunwyd arnynt gan Fforwm Ieuentid Caerdydd Ddwyieithog. Cefnogi aelodau'r Fforwm Ieuentid i fod yn hyrwyddwyr Cymraeg ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.	Poblogi'r Fforwm Ieuentid a chynnig y cymorth angenrheidiol i sicrhau ei fod yn cyfarfod o 2022/23 ymlaen. Galluogi'r Fforwm Ieuentid i gynnal rhaglen o ddigwyddiadau bob blwyddyn drwy gynnig cyllideb ddigwyddiadau. Cysylltu rhaglen ddigwyddiadau'r Fforwm Ieuentid a rhaglenni ariannu digwyddiadau eraill fel 'Noson Allan' Cyngor Celfyddydau Cymru ac 'Awduron ar Daith' Llenyddiaeth Cymru.	Ebrill 2022 Ebrill 2023 Ebrill 2023	Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd	Cyngor Caerdydd Cyngor Celfyddydau Cymru Yr Urdd Menter Caerdydd Llenyddiaeth Cymru Holl Bartneriaid Fforwm CDd	Deilliannau 3, 4 a 5

Amcan	Targed Medi	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
<p>3. Cynnal ymarfer mapio ar gyfer darpariaeth plant a phobl ifanc cyfrwng Cymraeg Cyngor Caerdydd i nodi bylchau posibl yn y ddarpariaeth a mynd i'r afael â hwy drwy gamau gweithredu a chyllid.</p>	<p>Adroddiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau plant a phobl ifanc cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor.</p> <p>Cyflwyno canfyddiadau'r ymarfer mapio i Fforwm Caerdydd Dwyieithog.</p> <p>Nodi cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth ychwanegol i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd.</p>	<p>Awst 2022</p> <p>Medi 2022</p> <p>Ebrill 2023</p>	<p>Ymarfer mapio Cyngor Caerdydd</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p>	
<p>4. Datblygu rhwydwaith o genhadon sydd eisoes wedi derbyn addysg Gymraeg i hyrwyddo'r iaith a mynediad i ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd.</p> <p>Cefnogi'r cenhadon drwy eu gwahodd i gwrdd â theuluoedd i hyrwyddo addysg Gymraeg.</p> <p>Datblygu adnoddau ategol (e.e. cyfweiliadau â llysgenhadon) i'w cyflwyno fel adnoddau digidol a thrwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Partneriaid CDd a gwasanaethau'r Cyngor (e.e. derbyn i ysgolion, y blynyddoedd cynnar).</p> <p>Datblygu ymgyrch ar y cyd â'r cenhadon a phartneriaid Fforwm CDd i hyrwyddo addysg Gymraeg gyda chynulleidfa oedd amlieithog.</p>	<p>Pob partner i nodi cenhadon a fydd yn apelio at gymunedau ledled Caerdydd er mwyn cynyddu mynediad i addysg Gymraeg.</p> <p>Datblygu a chytuno ar raglen ymgysylltu â theuluoedd.</p> <p>Nodi a chytuno ar gyllideb i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu adnoddau.</p> <p>Nodi sefydliadau cynrychioliadol i gefnogi a chytuno ar yr ymgyrch ymgysylltu.</p>	<p>Medi 2023</p> <p>Medi 2024</p> <p>Medi 2024</p> <p>Medi 2025</p>	<p>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd</p> <p>Cytuno ar y rhaglen ymgysylltu yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2024</p> <p>Cyllideb i'w nodi a chytuno yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2024.</p> <p>Cytuno ar y rhaglen ymgysylltu yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Medi 2025</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p> <p>Menter Caerdydd</p> <p>Dalgylchoedd cynradd ac uwchradd Cymraeg Caerdydd</p> <p>Colegau a phrifysgolion Caerdydd</p> <p>Yr Urdd</p> <p>Holl bartneriaid Fforwm CDd</p>	<p>Deilliannau 1, 2, 3 a 4</p>

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
5. Cynyddu gweithgarwch gydag ysgolion 'ail iaith' i ffurfio clybiau, cynnal gweithdai ac annog gweithgareddau'n uniongyrchol gyda'r ysgolion.	Datblygu partneriaethau strategol rhwng partneriaid Fforwm CDd, Fforwm Addysg Gymraeg Cyngor Caerdydd ac ysgolion i gefnogi darpariaeth hirdymor drwy gyfrwng y Gymraeg.	Medi 2024	Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd	Cyngor Caerdydd Menter Caerdydd Yr Urdd Llenyddiaeth Cymru Canolfan y Mileniwm Cyngor Celfyddydau Cymru Ysgolion cynradd ac uwchradd Caerdydd	Deilliannau 3, 4 a 5
6. Cynnal digwyddiad 'Gyrfa Gymraeg' blynyddol i rannu gwybodaeth am yr ystod eang o gyrsiau addysg bellach a all arwain at swydd Gymraeg.	Cytuno i'w gynnal fel digwyddiad ar wahân neu fel rhan o ffair swyddi ehangach. Nodi cyllid ar gyfer y digwyddiad er mwyn sicrhau y gall fod yn ddigwyddiad blynyddol. Cynnal digwyddiad Gyrfa Gymraeg.	Mawrth 2022 Medi 2022 Erbyn mis Mawrth 2023 ac yna'n flynyddol.	Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd	Cyngor Caerdydd Menter Caerdydd Ysgolion Uwchradd Cymraeg Caerdydd Colegau a Phrifysgolion Caerdydd Addewid Caerdydd	Deilliannau 5 a 7
7. Cynnydd yn nifer staff Cyngor Caerdydd sydd â gallu yn y Gymraeg.	Cynyddu nifer y staff sydd a sgiliau Cymraeg yng ngweithlu'r Cyngor i 20% o'r gweithlu erbyn 2027.	Mawrth 2027	Adroddiad Blynyddol Cyngor Caerdydd ar Safonau'r Gymraeg	Cyngor Caerdydd	

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
8. Cynnydd yn nifer staff Cyngor Caerdydd sy'n derbyn hyfforddiant Cymraeg.	Cynyddu nifer staff y Cyngor sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg i 50% o'r gweithlu erbyn 2027.	Mawrth 2027	Adroddiad Blynyddol Cyngor Caerdydd ar Safonau'r Gymraeg	Cyngor Caerdydd	
9. Datblygu a chynnal ymgyrch i rannu arfer gorau wrth gynyddu canran y gweithlu sy'n siarad Cymraeg a/neu sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg.	Cynnydd yn nifer staff Partneriaid Fforwm CDd sy'n siarad Cymraeg a chynnydd yn nifer y gweithluoedd hynny sy'n ymuno â chyrtsiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg.	Mawrth 2024	Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd	Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Cyngor Caerdydd Colegau a Phrifysgolion Caerdydd	
10. Cynnal Tafwyl bob blwyddyn i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a denu cymunedau Cymraeg a di-Gymraeg i gymdeithasu ac ymgysylltu â'r Gymraeg, y sîn gerddoriaeth Gymraeg, llenyddiaeth, chwaraeon a diwylliant Cymru.	Cynnal Tafwyl bob blwyddyn.	Blynyddol	Adroddiad Tafwyl Menter Caerdydd	Menter Caerdydd	Deiliant 5

THEMA STRATEGOL 3: CREU AMODAU FFAFRIOL: SEILWAITH A CHYD-DESTUN

Meysydd Gwaith:

1. Cymuned a'r economi,
2. Diwylliant a'r cyfryngau,
3. Cymru a'r byd ehangach,
4. Technoleg ddigidol,
5. Seilwaith ieithyddol,
6. Cynllunio ieithyddol,
7. Gwerthuso ac ymchwil

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
1. Yr holl dargedau ar gyfer Thema 3 i'w diwygio ar ôl derbyn data Cyfrifiad 2021.	Targedau a blaenoriaethau i'w hasesu ar ôl derbyn data'r Cyfrifiad a'u mireinio/addasu ymhellach.	Rhagwelir y bydd data'r Cyfrifiad yn cael ei gyhoeddi yn 2023	Cyfrifiad 2021	Cyngor Caerdydd	
2. Ehangu aelodaeth Fforwm Caerdydd Ddwyeithog i gynnwys: i) swyddogion o'r Cyngor i rannu gwybodaeth ac arfer da a sicrhau cyd-ddealltwriaeth o nodau; ii) sylfaen ehangach o bartneriaid e.e. busnes ac economi.	Fforwm Caerdydd Ddwyeithog i nodi a chytuno ar aelodau ychwanegol.	Mehfin 2022	Cofnodion Fforwm Caerdydd Ddwyeithog	Cyngor Caerdydd	
3. Creu slogan ar gyfer Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog a'r weledigaeth.	Creu a chytuno ar slogan i farchnata Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022/27.	Erbyn Ebrill 2022	Cytundeb yng nghyfarfod Fforwm CDd ym mis Mawrth 2022	Llenyddiaeth Cymru Cyngor Caerdydd Holl bartneriaid Fforwm CDd	

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
<p>4. Creu a chynnal gweithgareddau celfyddydol i blant er mwyn cefnogi a hyrwyddo Strategaeth Caerdydd Ddwieithog</p>	<p>Cynnydd yn nifer y digwyddiadau a phrosiectau celfyddydol a ddarperir gan bartneriaid y Fforwm a chynnydd yn nifer y plant sy'n eu mynychu.</p>	<p>Rhaglen weithgareddau i'w chytuno erbyn mis Mawrth 2023.</p>	<p>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd</p>	<p>Cyngor Celfyddydau Cymru</p> <p>Llenyddiaeth Cymru</p> <p>Menter Caerdydd</p> <p>Canolfan Mileniwm Cymru</p> <p>Ysgolion Caerdydd</p> <p>Yr Urdd</p>	<p>Deiliant 5</p>
<p>5. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth, y cyfleoedd a'r mynediad i'r celfyddydau yn y Gymraeg yng Nghaerdydd ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd.</p> <p>Datblygu a chytuno ar raglen o weithgarwch celfyddydol yn y Gymraeg wedi'i hanelu at oedolion a phobl hŷn.</p> <p>Darparu sesiynau darllen ac ysgrifennu creadigol cyfrwng Cymraeg yn llyfrgelloedd a hybiau dinas Caerdydd.</p>	<p>Partneriaid cyflawni i gyflwyno gwybodaeth am weithgarwch celfyddydol yn Gymraeg i'w rhannu â phartneriaid y Fforwm.</p> <p>6 digwyddiad i'w cynnal yn flynyddol.</p> <p>6 sesiwn i'w cynnal yn flynyddol.</p>	<p>Ebrill 2022</p> <p>Ebrill 2024</p> <p>Mawrth 2023</p>	<p>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd</p> <p>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd</p> <p>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd</p>	<p>Cyngor Celfyddydau Cymru</p> <p>Llenyddiaeth Cymru</p> <p>Menter Caerdydd</p> <p>Merched y Wawr</p> <p>Canolfan Mileniwm Cymru</p> <p>Yr Urdd</p> <p>Cyngor Caerdydd</p>	<p>Deilliannau 3, 4 a 5</p>

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
6. Cynyddu cydweithrediad celfyddydol â blynyddoedd 12 a 13 mewn Ysgolion Uwchradd a gydag Israddedigion yng Ngholegau a Phrifysgolion Caerdydd	Cytuno ar raglen waith rhwng y partneriaid cyflawni a chynnal gweithgarwch cydweithredol o ddechrau blwyddyn academaidd 2023/24.	Medi 2023	Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd	Colegau a Phrifysgolion Caerdydd Ysgolion Uwchradd Cymraeg Caerdydd	Deilliannau 4 a 5
7. Datblygu, creu a dylunio cylchlythyr misol o gyfleoedd cyflogaeth Cymraeg a datblygu sgiliau gwaith yn y ddinas, o wirfoddoli i swyddi llawn amser.	12 cylchlythyr misol wedi'u paratoi a'u fformatio i'w rhannu â'r partneriaid.	Ebrill 2022	Pob partner i dderbyn cylchlythyr misol i'w rhannu â'i rwydwaith.	Y Dinesydd Holl Bartneriaid Fforwm CDd	Deilliannau 5 a 7
8. Cytuno a rhannu canllaw arfer da ynghylch y defnydd o'r Gymraeg ac ystyriaethau Cymraeg at ddefnydd datblygwyr tai, cymdeithasau tai, cwmnïau adeiladu, cwmnïau diogelwch ac ati sy'n gweithio gyda Chyngor Caerdydd.	Dosbarthu'r canllaw i bartneriaid y Cyngor ac annog defnydd ac ystyriaeth gynhwysfawr o'r Gymraeg. Atgyfnerthu awgrym y Cyngor y dylid rhoi enw Cymraeg i bob datblygiad a phrosiect tai yng Nghaerdydd – mae hyn yn cynnwys yr enw answyddogol a ddefnyddir ar gyfer marchnata rhagarweiniol ac enw swyddogol terfynol y datblygiad neu'r prosiect.	Medi 2022	Y llawlyfr i'w rhannu â phartneriaid y Fforwm.	Cyngor Caerdydd Menter Caerdydd Holl bartneriaid Fforwm CDd	

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
9. Cynnal a hyrwyddo rhestr enwau strydoedd y Cyngor a'i rhannu'n fewnol (e.e. mapiau ishare a rhestr gyfeiriadau) ac yn allanol (Arolwg Ordans, Swyddfa'r Post ac ati).	<p>Trosglwyddo enwau strydoedd i adnoddau'r cyngor a chyrrff allanol perthnasol.</p> <p>Cryfhau'r Polisi Enwi Strydoedd y Cyngor i gymhwyso ei egwyddorion o ran gofodau a rennir i gynnwys enwi parciau, gofodau gwyrdd, coetiroedd, gorsafoedd trafndiaeth, llwybrau troed a llwybrau beicio, ac adeiladau a datblygiadau newydd sy'n eiddo i'r Cyngor.</p> <p>Ymgysylltu ag ysgolion lleol (yn enwedig ysgolion a fydd yn gwasanaethau'r ardaloedd yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd) i ennyn perchnogaeth dros enwau strydoedd Cymraeg yn eu dalgylchoedd.</p>	<p>Mawrth 2023</p> <p>Ebrill 2023</p> <p>Ymgysylltu ag ysgolion yng Ngogledd-ddwyrain Caerdydd erbyn diwedd 2023 ag ysgolion yn Ngogledd-orllewin Caerdydd erbyn 2025.</p>	<p>PPartner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd</p> <p>Adolygu ac ehangu Polisi Enwi Strydoedd y Cyngor</p> <p>Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd</p>	<p>Cyngor Caerdydd</p> <p>Comisiynydd y Gymraeg</p> <p>Ysgolion gynradd ac uwchradd Caerdydd</p>	
10. Creu pecyn gwybodaeth gydol oes am weithgarwch ac adnoddau Cymraeg yng Nghaerdydd.	Cytuno ar y pecyn terfynol a'i hyrwyddo i gymunedau ledled Caerdydd.	Medi 2022	Cytuno ar y pecyn gwybodaeth yng nghyfarfod Fforwm CDd Medi 2022	Menter Caerdydd	Pob Deiliant
11. Gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau technoleg gwybodaeth i eirioli dros ddatblygu a darparu rhaglenni ac adnoddau sy'n cefnogi'r Gymraeg.	Sicrhau bod rhaglenni ac adnoddau technoleg gwybodaeth yn cefnogi darpariaeth Gymraeg.	Mawrth 2027	Partner cyflawni yn adrodd i Fforwm CDd	<p>Cyngor Caerdydd</p> <p>Comisiynydd y Gymraeg</p> <p>Colegau a phrifysgolion Caerdydd</p>	
12. Datblygu a chyhoeddi Polisi Grantiau	Datblygu Polisi Grantiau Cyngor Caerdydd i fodloni'r gofynion o dan Safonau'r Gymraeg	Mawrth 2022		Cyngor Caerdydd	

Amcan	Targed	Amserlen	Ffynhonnell Adrodd	Partner(iaid) Cyflawni	Deiliant/ Deilliannau CSCA a Gefnogir
13. Asesu effeithiolrwydd ymyriadau Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog.	Asesu effaith yr ymyriadau a ddisgrifir yng nghynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog a mesur llwyddiant o ran cefnogi themâu Cymraeg 2050 gan gyfeirio at arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ac arfer gorau partneriaid Fforwm Caerdydd Ddwyeithog.	Ebrill 2023 ac yn flynyddol wedi hynny.	Mae Cyngor Caerdydd a Fforwm Caerdydd Ddwyeithog yn adrodd ar weithrediad a'r gwaith o gwblhau'r camau gweithredu a ddisgrifir yng nghynllun gweithredu Caerdydd Ddwyeithog.	Cyngor Caerdydd	
14. Adolygu canllaw Cyngor Caerdydd i 3ydd partïon ar weithredu Safonau'r Gymraeg	Diweddarau a diwygio'r canllaw 3ydd partïon a chynnwys adran ar ofynion Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â thendro.	Ebrill 2022	Cyhoeddi canllaw 3ydd partïon diwygiedig	Cyngor Caerdydd	
15. Gwella statws y Gymraeg yng Nghaerdydd drwy gynyddu ei hamlygrwydd gyda brandio Bws Caerdydd a Thacsis.	Gweithio mewn partneriaeth ag adrannau a thimau perthnasol y Cyngor i gyflwyno'r term 'Tacsi' ar yr arwyddion ar gyfer fflyd newydd Caerdydd o dacsis gwyrddach. Cynyddu'r defnydd o frandio Cymraeg a'i amlygrwydd ar fflyd Bws Caerdydd. Ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai cynnwys gofynion sy'n ymwneud â defnyddio'r term 'Tacsis' yn yr amodau sy'n cefnogi grantiau Cyngor Caerdydd i ddisodli tacsis hŷn am fodolau gwyrddach	Ebrill 2023 Ebrill 2023 Ebrill 2023	Newid mewn amodau trwyddedu i gynnwys y gofyniad hwn. Cytundeb gyda Bws Caerdydd. Cynnwys gofynion mewn amodau grant perthnasol.	Cyngor Caerdydd	

ATODIAD II – PRIF BARTNERIAID

Fel strategaeth ar gyfer y Ddinas gyfan, mae llwyddiant gweledigaeth Caerdydd Ddwieithog fel y'i hamlinellir yn y strategaeth hon yn dibynnu ar gydweithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Mae'r holl bartneriaid arweiniol canlynol wedi cytuno i roi'r cynllun ar waith a monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu perthnasol y cynllun gweithredu.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru yn 1994 a dyma'r corff swyddogol sy'n ariannu ac yn datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol, mae'n cefnogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n cynnal rhaglenni gwaith ledled Cymru er mwyn gwneud y celfyddydau'n ganolog i fywyd a lles y genedl.

Rygbi Caerdydd

Rygbi Caerdydd yw un o bedwar tîm rygbi rhanbarthol proffesiynol Cymru. Wedi'i leoli yng Nghaerdydd, prifddinas Cymru, mae'r tîm yn chwarae ym Mharc yr Arfau Caerdydd ac yn eiddo i Cardiff Rugby Ltd, sydd hefyd yn berchen ar ac yn rhedeg Clwb Rygbi Caerdydd. Rhwng 2003 a 2021 roedd y clwb yn cael ei adnabod fel Gleision Caerdydd cyn newid yr enw i Rygbi Caerdydd cyn dechrau tymor 2021-22.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd

Fel rhan o weithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Mae BGCau yn dod â chyrrff cyhoeddus a thrydydd sector ynghyd i weithio mewn partneriaeth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae aelodau statudol BGC fel a ganlyn:

- Cyngor Dinas Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhaid i aelodau'r Bwrdd hefyd gynnwys nifer o bartneriaid eraill sy'n cyfrannu at ei weithgareddau fel 'cyfranogwyr a wahoddir'. Mae cynrychiolwyr y canlynol yn rhan o BGC Caerdydd:

- Gweinidogion Cymru
- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Gall partneriaid eraill sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus hefyd fod yn rhan o'r gwaith.

Mae dyletswydd ar BGCau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i asesu lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal leol a llunio cynllun lles lleol yn nodi amcanion lles a fydd yn cyfrannu at gyflawni 7 nod lles Llywodraeth Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y nodau hyn [yma](#).

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn sefydliad sydd wedi'i wreiddio yng Nghymru ac mae'n cynnig addysg i fyfyrwyr sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac sydd â gwedd broffesiynol. Mae ei gweledigaeth yn deillio o'i hymrwymiad i addysg. Cynhelir ymchwil ac arloesi mewn partneriaeth â myfyrwyr, llywodraethau, busnes a diwydiant i ddarparu manteision pendant i unigolion, cymdeithas a'r economi.

Mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau bod pob myfyriwr yn cyflawni ei botensial i wneud cyfraniadau rhagorol ar lefel raddedig, i'w genhedlaeth ei hun a chenedlaethau'r dyfodol.

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)

Mae Cyngor Trydydd Sector Caerdydd yn bodoli i gefnogi a datblygu trydydd sector Caerdydd. Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

(CGGC), mae wedi ymrwymo i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r sector er mwyn sicrhau y gall grwpiau a sefydliadau yng Nghaerdydd wneud eu hunain yn gynaliadwy a diwallu anghenion eu cymunedau.

Prifysgol Caerdydd (Ysgol y Gymraeg)

Mae Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn uned academaidd o'r radd flaenaf sydd ag enw da byd-eang. Mae'n arbenigo mewn amrywiaeth o feysydd sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, gan gynnwys llenyddiaeth, ieithyddiaeth, cymdeithaseg iaith, cyfieithu, addysg, cynllunio a pholisi. Mae ganddi gysylltiadau rhyngwladol cryf, yn arbennig gyda gwledydd sy'n gartref i ieithoedd lleiafrifol, fel Canada, Catalonia, Gwlad y Basg ac Iwerddon. Mae staff yr ysgol hefyd yn arbenigo mewn agweddau amrywiol ar y Gymraeg a'i diwylliant yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

Mae arolygon cenedlaethol yn dangos bod yr Ysgol yn rhagori mewn addysgu, ymchwil ac effaith ei hymchwil y tu allan i'r maes academaidd. Mae'n cynnig addysg o'r radd flaenaf o lefel israddedig i lefel PhD. Mae Cymraeg i Oedolion Caerdydd yn rhan o'r Ysgol, ac mae'n darparu cyrsiau i fwy na 2,000 o fyfyrwyr yn y brifddinas. Mae'r Ysgol hefyd yn gyfrifol am y cynllun Cymraeg i Bawb (sy'n rhoi'r cyfle i gannoedd o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd ddysgu Cymraeg am ddim) ac mae'n un o ganolfannau'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol (sy'n datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr addysg).

Mae Ysgol y Gymraeg yn rhan o Brifysgol Caerdydd, sy'n brifysgol uchelgeisiol ac arloesol â gweledigaeth feiddgar a strategol. Mae Prifysgol Caerdydd yn aelod o Grŵp Russell, a daeth yn y 154fed safle yn Netholion Prifysgolion Gorau'r Byd QS 2020. Gosodwyd ansawdd ei hymchwil arloesol yn y 6ed safle ymhlith prifysgolion y DU yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2020. Mae'r brifysgol yn cynnig profiad addysgol rhagorol i'w myfyrwyr. Mae Prifysgol Caerdydd, wedi'i llywio gan greadigrwydd a chwilfrydedd, yn gwneud popeth yn ei gallu i gyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru a'r byd.

Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn un o'r colegau mwyaf yn y DU, gan ddarparu addysg a hyfforddiant o safon uchel ledled Prifddinas-ranbarth Cymru.

Mae gan Goleg Caerdydd a'r Fro dros 30,000 o ddysgwyr y flwyddyn sy'n astudio cyrsiau coleg llawn-amser a rhan-amser ac yn dilyn cymwysterau prifysgol a rhaglenni prentisiaeth, ynghyd â darpariaeth hyfforddiant i gyflogwyr.

Mae'n datblygu pobl fedrus a chyflogadwy – gyda rhai o'r cyfraddau llwyddiant myfyrwyr gorau yn y sector a ffocws ar brofiadau sy'n sicrhau bod dysgwyr yn creu argraff ac yn symud ymlaen.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o fyrdau iechyd lleol GIG Cymru. Daeth i fodolaeth ar 1 Hydref 2009 drwy gyfuno tri sefydliad GIG yn ardal Caerdydd a Bro Morgannwg. Y tri sefydliad a gyfunwyd oedd: Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, sy'n cyflogi 12,000 o staff ac a fu'n flaenorol yn gyfrifol am wasanaethau ysbyty yn ardal Caerdydd a Bro Morgannwg; Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd; a Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg sydd ill dau yn gyfrifol am wasanaethau meddyg teulu, deintyddol, optegol a fferylliaeth. Mae pencadlys y Bwrdd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, yng Nghaerdydd.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio drwy ganghennau sydd wedi'u lleoli mewn saith prifysgol yng Nghymru. Nod y canghennau yw cefnogi gwaith y Coleg a gweithredu fel pwynt cyswllt lleol i fyfyrwyr.

